# ECO'R WYDDFA

RHIF 14 EBRILL 1977 Pris: 10c

# LLWYDDIANT GYDA'R ADAR



**Dechreuodd Melfyn, sydd yn byw ym Mod Gwynedd, Cwm-y-glo ym-ddiddori mewn cadw 'bwjis' tua phum mlynedd yn ôl gyda dau dderyn. Erbyn hyn mae ganddo 35 o adar, ac yn magu tua 80 o gywion bob blwyddyn. Mae rhai yn cael eu cadw i'w harddangos yn y sioeau, ac eraill yn cael eu gwerthu.**

**Golygai cadw adar fel hyn lawer o waith yn y dechrau, gan fod rhaid gwneud cwt a chawellau i'w magu, a chawellau arbennig i'w harddangos yn y sioeau. Yr wythnos o flaen bob sioe rhaid treulio tua hanner awr bob nos yn y cwt, i chwistrellu yr adar a thrin y spotiau sydd o amgylch eu gyddfau. Rhaid hefyd gofrestru gyda'r 'Budgerigar Society' cyn y gellwch eu harddangos mewn unrhyw sioe. Mae llawer o waith papur i'w wneud hefyd gan fod yn rhaid cadw cyfrif o bob aderyn sydd yn y cwt.**

**Y sioe gyntaf yr aeth iddi oedd yn Llandudno Hydref 1972 pryd yr enillodd y 'Best Junior Budgie'. Erbyn hyn mae wedi ennill 116 o wobrau arbennig mewn sioeau lleol, Sioe Fôn, Wrecsam a Lerpwl. Yn ystod y tymor sioeau diwethaf (mis Awst i fis Rhagfyr) enillodd bump 'Best Bird in Show'; y gorau o'r rhain oedd yn sioe Bethesda allan o 800 o adar, cafodd 2 gwpan arian, tarian bren a phlac lechen, – hyn hefo cyw a fagodd ei hun.**

**Llongyfarchiadau'r holl fro i Melfyn.**



# £3 Y PEN

**Y CWESTIWN mawr mae llawer o drigolion bro yr *Eco* wedi ei ofyn ers rhai misoedd bellach yw, "Faint mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn mynd i gostio pan ddaw i Gaernarfon ym 1979 a faint o arian y mae ein pentref ni yn gorfod ei godi?"**

Penderfynwyd mewn Pwyllgor Cyllid o'r Eisteddfod Genedlaethol yn Chwefror i "dderbyn yr egwyddor o ddosbarthu'r cylchoedd yn ôl wardiau y cynghorau lleol ac y dylai targed bob ardal fod yn ôl £3 yr etholwr, ond £1.50 yr etholwr yn y cylchoedd hynny a oedd wedi cyfrannu tuag at Eisteddfod Bro Dwyfor."

Y GRONFA LEOL

Yn ôl yr amcangyfrifon disgwylir i'r Gronfa Leol gyfrannu £62,550. Disgwylir i tua £18,325 ddod o bentrefi yn ardal *Eco'r Wyddfa*.

Yn ôl yr amcangyfrifon eto dyma'r symiau y disgwylir i bob pentref yn yr ardal gyfrannu.

| | |
|---|---|
| **Deiniolen a Chlwt-y-bont** | **£2,900** |
| **Dinorwig a Fachwen** | **550** |
| **Brynrefail** | **600** |
| **Bethel a Seion** | **2,250** |
| **Penisarwaun** | **1,125** |
| **Llanberis** | **3,750** |
| **Nant Peris** | **300** |
| **Llanrug, Tanycoed a Cheunant** | **3,750** |
| **Cwm-y-glo** | **900** |
| **Waunfawr** | **2,000** |
| **Betws Garmon** | **250** |


Er mwyn cyflwyno syniad y Gronfa Leol i'r gwahanol ardaloedd, penderfynwyd fod yr aelodau ar wahanol bwyllgorau yr Eisteddfod, oedd yn byw ymhob ardal ynghyd â chynychiolwyr o'r Pwyllgor Gwaith a Chyllid i gyfarfod a'r Cynghorau Cymuned i geisio eu cydweithrediad.

# BANC Y BEIRDD

**Gyda chostau Eisteddfod Genedlaethol Cymru'n debygol o fod dros £300,000 pan ddaw i Gaernarfon ym 1979, mae'n rhaid dechrau hel arian ar fyrder. Bydd angen cyfraniadau unigol i bob cronfa leol, ond mae modd cynorthwyo'n sylweddol iawn hefyd drwy ddim ond benthyca arian dros dro i'r Eisteddfod.**

**Dyma sail Banc y Beirdd, lle gofynnir i unigolion fenthyca cymaint o arian ag y gallent dros dair blynedd (rhwng £25 a £1,000), fel bo elw'r buddsoddiad yn chwyddo coffrau'r Eisteddfod. Byddai benthyciad £100 yn dwyn elw o bron i £40.**

**Dangosir elw benthyciad pob unigolyn dan restr ei gronfa leol, ac mae sicrwydd yr ad-delir pob dimau o'r benthyciad cyn Ebrill 1af., 1980. Ond mae angen yr arian ar unwaith, i'r ymddiriedolwyr sicrhau'r llogau uchaf, fel bydd Eisteddfod Caernarfon a'r Cylch, 1979, mor llwyddiannus ag Eisteddfodau'r gorffennol yn yr ardal.**




***MAE'R* Eco'n *mynd i bob man. Os am 5 munud bach yn unigrwydd mynyddoedd Eryri – beth yn well na chip ar yr* Eco. *Llun o John Williams, Llanberis yn darllen yr* Eco *yng nghanol y mynyddoedd. Ewch â'r* Eco *gyda chi i bobman, dywedwch wrth eich ffrindiau amdano – mae'n werth ei ddarllen.***

# CROESO I'R WAUN A'R BETWS

**GWELWCH fod newyddion o'r Waunfawr a Betws Garmon yn ymddangos yn yr *Eco* am y tro cyntaf. Gawn ni fel darllenwyr *Eco'r Wyddfa* estyn croeso cynnes iddynt i'r fro.**

Nid cais ar ymestyn dalgylch neu chwyddo gwerthiant yr *Eco* yw hyn ond cau gagendor neu fwlch daearyddol sy'n bodoli rhwng "Lleu" a ni. Yn wir tristwch ac anhegwch fyddai gadael unrhyw bentref yn amddifad o wasanaeth papur bro ac eisoes mae Waunfawr a Betws Garmon wedi dewis y tîm a fydd yn gwasanaethu eu hardal ar fwrdd yr *Eco*.

Mae Pwyllgor *Eco'r Wyddfa* hefyd wedi cytuno i dderbyn Caeathro i mewn i'r dalgylch pe deuai cais swyddogol i law'r golygydd oddi wrth rhai o drigolion y pentref.

Disgwyliwn yn eiddgar .

Hoffem bwysleisio yr un pryd mai dyma cyn belled y mae *Eco'r Wyddfa* yn bwriadu ehangu ei orwelion.

# ECO'R WYDDFA

RHIF 14 EBRILL 1977

Golygydd:
Arwel Jones,
Gwên-y-Wawr,
Glanffynnon,
Llanrug.
*Ffôn: Caernarfon 3719*
Argraffwyd gan Wasg Gwynedd,
Nant Peris.

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru.*


# PIGION

O

DDYDDIADUR

WILLIAM MORRIS WILLIAMS

BRON FUCHES, DINORWIG

| | | |
|---|---|---|
| **Ion.** | **4:** | Heno boddodd Jane, morwyn Mr. Davies, Blue Peris yn llyn Ysgoldy. |
| **Mai** | **14:** | Marw John Roberts, Fron, Llanfaglan, (Ieuan Gwyllt) yn 54 oed. |
| **Mai** | **25:** | Damwain angeuol yn Gilfach Ddu, John Williams, Ysgubor Fawr, yn 70 oed. |
| **Mai** | **30:** | Damwain angeuol yn y Garret, William Williams, Tros-yr-Afon, Llandinorwig, a'i fab Owen – un yn 65 oed a'r llall yn 19 oed. |
| **Meh.** | **28:** | Agor Capel Rehoboth ar ôl ei atgyweirio. |
| **Gorff.** | **7:** | Damwain angeuol yn y Garret – Thomas Griffith, Hafodlas yn 45 oed. |
| **Gorff.** | **23:** | Wm. Morris, Bron y Fuchas ac Elinor Williams, Dinorwig House, yn priodi. |
| **Hyd.** | **1:** | Cathrin, priod William Hughes, Terfyn, Dinorwig, 31 mlwydd oed a fu farw yn ddi-rybudd pan allan yn hel grug at ddechrau tân. |
| **Tach.** | **3:** | Claddu priod Mr. Abel Williams, Ysgol Feistr Capel Coch yn 35 ml. oed. |

**Derbyniwyd yr uchod trwy garedigrwydd y Parch. Herbert Thomas, Llannor. Dymunwn yn dda iddo ar ei ymddeoliad.**

# LLYTHYRAU

*Glan Rhydfadog*
*Deiniolen*

*Mr. Olygydd,*
*Hanes yr Ysgol Sir*
*Ym Mrynrefail, Arfon*

*Bu llawer o drafod yn ddiweddar am ddyfodol yr Hen Ysgol ac efallai y byddai'r dyfyniadau hyn o lyfr Hanes yr Ysgol gan y diweddar Barch. John Pritchard, MA., BD., (Llanberis) o ddiddordeb i ddarllenwyr* **Eco'r Wyddfa** *a'r hen ddisgyblion. Ceir hanes y gweithgarwch mawr a fu yn yr ardaloedd hyn ddechrau'r ganrif i sefydlu'r ysgol. Hanes sydd yn y llyfr am y Basâr Fawr a gynhaliwyd yn yr Ysgol Newydd ym Mrynrefail ar Medi 5ed, 6ed, 7ed a'r 8ed 1900. Agored bob dydd o 2 o'r gloch hyd 10 o'r gloch.*

*Stondinau o bob math yno gydag enw blodyn arnynt, a thua 20 i 25 o ferched o wahanol bentrefi yr ardal yn gyfrifol am bob un.*

*Dyma rai o enwau'r stondinau:*
**Aster; Chrysanthemum; Fern; Heather; Ivy; Poppy; Sweet Pea; White Rose. (Yn unol â ffasiwn yr oes, enwau Saesneg yntê?)**

**Refreshment Stall**

| | |
|---|---|
| *Te plaen a chacen* | *6 ceiniog* |
| *Te gyda ŵy* | *9 ceiniog* |
| *Te gyda chig* | *1s 0* |
| *Soda a llefrith* | *3 ceiniog* |
| *Glasiad o lefrith* | *2 ceiniog* |
| *Sandwich* | *2 ceiniog* |
| *Hufen Iâ* | *6 ceiniog* |
| *Lemonade cartre* | *1 ceiniog y glasiad* |
| *Paned o de, coffi neu cocoa* | *2 ceiniog* |

*Marmalade cartre – 'a speciality'*

**Cystadleuthau**

*Mewn polisio pres gyda'r Monkey Brand – Gwobr: 15 swllt*
*Trimio Hetiau. Cyfyngedig i ddynion*
*Cystadleuaeth Golchi i Ferched (Gwobr: 6 llath o ddefnydd at wneud Ffrog werth 7/6c &c.)*
*Unrhyw Solo – Gwobr: Gini (£1.1s.0d)*
*Naw o wahanol rai yn beirniadu.*

**Cinematograph**

*Darluniau byw o'r ymladdfeydd yn Neheudir Affrica a mannau eraill. Dyma gyfleustra arbennig i gael golwg ar ddewrder ein milwyr ar faes y gwaed.*
*Mynediad i mewn 3c.*

**Gramaphone**

*Dyfais hynotaf yr oes – Peiriant yn canu, siarad, chwerthin, wylo.*
*Mynediad i mewn 2c.*

**Microscopes**

*Arddangosiad diddorol o wahanol wrthrychau trwy y Chwyddwydr. Galvanic Battery, Lithographic Printing Press &c.*

*Ni chaniateir na Lottery na Raffling yn ystod y Basar.*

*Cyngherddau Amrywiol yn ystod y Basâr pryd y gwasanaethir gan ddatgeinwyr ac Offerynnwyr lleol.*

*Arddangosfa Ardderchog – Casgliad diddorol o bethau cywrain a chreiriau henafol, casgliad o dlysau &c.*

*Bocs o Siocled fel y cyflwynwyd i'r soldiwrs dewr yn Ne Affrica gan Ei Mawrhydi y Frenhines.*

*Ar Sadwrn, Medi 8fed, bydd Seindorf Arian Brenhinol Dyffryn Nantlle yn y Basar. Arweinydd: Mr. Ben H. Jones. Perfformir ganddynt ddarnau Cerddorol Uwchraddol yn cynnwys rhai a chwareuwyd ganddynt yn y Royal Albert Hall Llundain yn ddiweddar.*

*Pricie Roberts*

*Gwelfor,*
*Rhostryfan.*

*"Beth yw amharch a charchar?"*

*Dyma'r ffeithiau moel am dri achos llys diweddar. Dyn yn cael chwe mis o garchar am dreisio geneth dair-ar-ddeg oed. Milwr yng Nghatraeth yn cael chwe mis gohiriedig am flwyddyn am drywanu dyn i farwolaeth mewn siop sgod a sglod. Aelod o Gymdeithas yr Iaith yn cael chwe mis o garchar, dau arall yn cael chwe mis gohiriedig am ddwy flynedd am ymosod yn ffyrnig ar ddrws stiwdio deledu, heb gyffwrdd bys bach mewn undyn byw. Mae'r gyfraith yn anffaeledig meddwch. Cewch gyfiawnder mewn llys barn medd arall. Ai dyma gyfiawnder?*

*Oes cysondeb yn hyn?*

*Ydych chi Gymry yn malio botwm corn fod Teresa yng ngharchar? Yng ngharchar eto. Ydych chi'n poeni fod pobl ifanc dawnus fel Angharad a Siôn Aled yn wynebu carchar am na all cydwybod adael iddynt eistedd yn swrth mewn cadair esmwyth yn gwylio marwolaeth iaith?*

*Os yw eich cydwybod yn pigo rywfaint arnoch, yna gwnewch rywbeth. Ysgrifennwch at yr awdurdodau, eich A.S., a John Morris; mynnwch gael yr hyn sy'n haeddiannol i ni fel cenedl. Gweithiwch a gweithredwch, protestiwch yn erbyn carcharu hufen ein hieuenctid.*

*Dewi Tomos*

*GÊM NEWYDD*

*Annwyl Olygydd,*

*Yr wyf wedi dyfeisio gêm bwrdd Gymraeg, ac fe hoffwn ei gweld ar y farchnad. A fedr unrhyw gwmni masnachol sydd â diddordeb yn y math yma o gynnyrch gysylltu â fi drwy'r Golygydd. Neu yn wir, buaswn yn dra diolchgar o dderbyn cyngor gan unrhyw un fyddai â diddordeb mewn ehangu'r maes di-lewyrch hwn.*

*Yn ddiffuant,*
*'Sgrablwr'*

*45 Station Road,*
*Birmingham,*
*Chesterfield S43 1JU*

*Annwyl Olygydd,*

*Unwaith eto (once again – I hope the words are right). Drwg gennyf – that I must continue in Saesneg – my ability to write in Cymraeg is not sufficiently good for me to write the letter in time – in fact, even if I devoted a great deal of time to the task, I have not the knowledge of the syntax of the language to 'think in Cymraeg'.*

*It gave me great pleasure to see my letter printed in* **Eco'r Wyddfa** *I feel, too, that it is an honour, because I know how much, in Gogledd Cymru, and particularly in Gwynedd, you prize your nationhood, and love your language and culture.*

*Unwaith eto,*
*Diolch yn fawr,*
*Yn gywir,*
*Colin Davis*

*Bryn Bedw,*
*Rhosbodrual,*
*Caernarfon.*

*Annwyl Olygydd,*

*Gair parthed llythyr Dilys Baylis yn rhifyn Mawrth 1977. Dealler mai darlun o Fform 2X sydd ynddo (Medi 1925–Gorff. 1926) ac nid oedd Erasmus ynddo. Ymunodd ef â'r dosbarth yn Fform 3 ac felly 'roedd yn y dosbarth Ffiseg (Fform 4) pan ddigwyddodd y tân yno yn 1928. Fel y dywedais, y mae'r athro, Ifanc y pryd hwnnw, yn dal i drigo yn yr ardal. Daeth yn Brifathro yr ysgol yn ddiweddarach.*

*Gyda golwg ar y llun a ddangoswyd yn rhifyn Mawrth 1977, diddorol yw sylwi fod y dosbarth hwn wedi cael braint o gwmni 'y dewraf o'n hawduron', T. Rowland Hughes, fel athro ar brawf yn ystod eu tymor cyntaf yn Ysgol Sir Brynrefail, ym Medi 1925. Cofiaf mai gwersi Saesneg a gaem ganddo ac mai ef a gyflwynodd 'Alice in Wonderland' gyntaf i mi. Pery'r sain 'z' yn y gair 'Conversation' fel yr ynganai ef, i atsain yn y cof, gan mor ddieithr oedd i glust Cymro bach gwledig pryd hynny.*

*Credaf y dylai plant y dyddiau hynny, ymfalchio yn y berthynas agos a fu rhyngddynt a'r bardd/nofelydd ar ddechrau ei yrfa. Os gwn i a fu yng ngofal dosbarth ar ôl hwnnw?*

*Fe'i cofiaf yn ddarlithydd yng Ngholeg Harlech. A oes rhywun arall yn cofio?*

*Yn gywir, R.W.*

# BETWS GARMON

**YN YR YSBYTY** – Drwg deall bod Karen, baban bach Mr. a Mrs. D. Bound, Tŷ Coch yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Gobeithir y bydd adref yn ystod yr wythnos.

**O'R YSBYTY** – Dymunir y gorau i Miss C. Williams, Tan y Marian.

**YMRYSON CŴN DEFAID** – Cynhaliwyd pwyllgor o'r uchod ar Mawrth 18. Mae trefniadau mewn llaw i gynnal yr Ymryson Cŵn Defaid ar Awst 12 a 13eg ar dir Ystrad Isaf. Am dair blynedd yn olynol enillwyd Her Gwpan Dosbarth Cyntaf gan Alan Jones, Pontllyfni. Eleni cynigir cwpan newydd a gyflwynwyd gan Sir Dennis a Lady Bulkeley.

# BETHEL

**CHWAER NEWYDD** – Llongyfarchiadau i Alwyn ac Elizabeth Roberts Gwyndre, Saron ar enedigaeth iddynt ferch fach, Siân (chwaer i Llion) ar Chwefror 6ed.

**LLONGYFARCHIADAU** – i Selwyn Griffith, Crud yr Awen am gael ei benodi yn bennaeth Ysgol Gynradd Rhiwlas. Mae Selwyn yn dysgu ar hyn o bryd yn Llanberis; bydd yn dechrau yn ei swydd newydd ar ôl gwyliau'r Pasg.

**LLONGYFARCHIADAU** – i Dafydd Williams, Y Rhos, ar ennill y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth cywydd a'r gystadleuaeth am englyn yn Eisteddfod Talsarnau ddydd Sadwrn, Mawrth 19. Dyma'r tro cyntaf i Dafydd gystadlu ar y Cywydd.

**MERCHED Y WAWR** – Fel hyn y cyfarchodd T.H. Williams, Y Waunfawr y gangen yn y cyfarfod fis Chwefror.

**Er fod eira'n mynnu oedi**
**Acw ar yr Wyddfa fawr,**
**Bydd yn gynnes yng nghwmpeini**
**Cangen Merched glân y Wawr.**

**Ie, merched siriol, hawddgar**
**Pentre Bethel, ie'n wir,**
**Pentre sydd yn dal i dyfu**
**A llewyrchu wna yn glir.**

**I Lwyn Eithin daeth un bychan, –**
**Cyn pen dim fydd yn rhoi cam,**
**Gweithgar yma gyda'r gangen**
**'Rwyf yn deall yw ei fam.**

**Hi a drefnodd imi ddyfod**
**Atoch, heno i'r fan hyn;**
**Bendith arni hi a'r teulu**
**Rhaid yw gwasgu llaw yn dynn.**

**Pwt ar gân, a phwt ar lafar,**
**Dyma gewch chwi gennyf fi,**
**Heb ymdroi rhown dro i'r olwyn,**
**Gyda'n gilydd ffwrdd â ni.**

Nos Wener Mawrth 18 yn y Neuadd bu Parti Eryri yn cynnal cyngerdd dan nawdd y gangen leol . Cafwyd noson lwyddiannus iawn, a'r Neuadd bron iawn yn llawn. Gwnaed elw sylweddol a gobeithir prynu gwely ripple at ddefnydd yr ardal.

Dymuna'r gangen ddiolch i Barti Eryri ac i Arwel Jones, am eu gwasanaeth parod.

Mae Mrs. Joyce Jones, Tŷ'r Ysgol wedi ei dewis i gynrychioli'r gangen ar bwyllgor yr Eisteddfod leol.

**EISTEDDFOD BETHEL** – Mewn cyfarfod diweddar o Bwyllgor yr Eisteddfod dewiswyd y Parchedig W.R. Williams yn Lywydd a'r Parchedig Eryl Ll. Davies yn is-lywydd. Diolchwyd i Mr. Alwyn Jones, Baladeulyn, Mrs. Foulkes, Tyddyn Gwndwn a Mrs. Fanny Owen, Bryn Teg am eu gwasanaeth diflino i'r Eisteddfod a gwahoddwyd Mr. Alwyn Jones i ddod yn ôl i arwain Eisteddfod 1977.

Penderfynwyd gofyn i fudiadau'r pentref anfon dau aelod yr un i'w cynrychioli ar Bwyllgor y Neuadd.


**YR URDD** – Llongyfarchiadau i'r aelodau oll a fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod Gylch yn Ysgol Brynrefail.

**CLWB Y MAMAU** – 'Roedd cyfarfod Chwefror yn gyfarfod i'w gofio. Yn bresennol yn yr ysgol 'roedd Miss Mairwen Hughes, Trefor, cyn Ymwelydd Iechyd yr ardal, Mrs. Carys Hughes, Penisarwaun, ei holynydd, ac aelodau o Glwb y Mamau Llanrug. Cafwyd gwledd bythgofiadwy o gawl, salad, treiffl, caws a bisgedi a choffi, wedi ei drefnu'n bennaf gan Mrs. Lynwen Morris a Mrs. Ceinwen Williams, gyda chymorth Mrs. Norah Parry, Mrs. Jenifer Jones, Mrs. Dorothy Roberts a Mrs. Linda Edwards, aelodau eraill y pwyllgor. Gweinyddwyd yn hynod effeithiol a threfnus gan Mrs. Shirley Evans, Mrs. Maraget Hughes a Mrs. Nan Owen, a mawr yw diolch y pwyllgor iddynt. Croesawyd a chyflwynwyd y gwahoddedigion gan Mrs. Linda Edwards, llywydd, ac ar ôl bwyta anrhegwyd Miss Mairwen Hughes gan Mrs. Elizabeth Evans, ar ran pentref Bethel a'r cylch, – ein gwerthfawrogiad o ddeunaw mlynedd o wasanaeth ardderchog. Yn ei anerchiad dywedodd Mrs. Evans fod Mairwen wedi bod fwy fel ffrind nag Ymwelydd Iechyd, a dymunwyd yn dda iddi yn ei hardal newydd, Dyffryn Nantlle. Estynnwyd croeso a dymuniadau gorau'r ardal hefyd i Mrs. Carys Hughes, ei holynydd, yn ei swydd newydd. I ddiweddu'r noson fe'n diddorwyd yn wych ar y gitâr gan Delian a Dwyfor – dwy o aelodau Côr Rhiannedd Môn – Dwyfor wrth gwrs yn byw ar Stad Eryri. Un o aelodau Clwb y Mamau Llanrug, Mrs. Menna Pritchard a roddodd y diolchiadau. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i flaenoriaid Capel Cysegr am gael benthyca llestri'r capel. Hwylusodd hyn bethau'n fawr iawn.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Fawrth 23ain, pryd y ceir noson o Ymlacio a Cholli Pwysau.



*Mrs. Elizabeth Evans, Clwb y Mamau Bethel, yn anrhegu Miss Mairwen Hughes, Trefor, ar ran y pentref am ddeunaw mlynedd o wasanaeth ardderchog i'r ardal fel Ymwelydd Iechyd.*



DRAENOG YN DIGWYDD DARGANFOD

DIGWYDD clywad sgwrs wnaeth Draenog, wrth gael peint bach noson o'r blaen, rhwng dau o'r hogia 'ma sy'n swnio fel tae nhw'n gw'bod pob dim. Wyddoch chi am y teip – am roi'r byd yn ei le mewn chwinciad heb symud oddi ar eu tina'.

"Be ddiawl 'ma Cyngor Llanberis 'ma'n feddwl ma' nhw neud d'wad?"

"Dwn 'im."

"Meddylia – prynu tŷ y boi 'na oedd yn 'sgwennu llyfra' ers talwm a hel pres i wneud o i fyny."

"Dwn 'im, ia?"

"'Dydy nhw ddim isio fo mond i 'neud miwsîam a chiaffi chwarelwrs."

"Taw â deud."

"Cha' nhw ddim dima' gen i, na gan llawar o bobl er'ill chwaith."

"Na finna."

"Meddylia faint sy'n crefu am dai yn y pentra 'ma."

"Nefi blw, ia."

"A tasw'n i yn rhedeg y pentra 'ma..."

Ac felly aeth y sgwrs yn ei blaen.

Yn digwydd bod ym mhocad gwasgod Draenog mae'r "statistics" canlynol am "Dai Haf" y fro.

Dyma gyfanswm **ail gartrefi** yn yr ardal yma yn unig:

| | | |
|---|---|---|
| **Llanberis** | – | 75 |
| **Llanddeiniolen** | – | 184 |
| **Llanrug** | – | 117 |
| **Waunfawr** | – | 72 |
| **Cyfanswm** | – | 448 |

Beth am lenwi'r rhain yn gynta' a dechra'r ddadl o'r fan honno – cyn beirniadu Cyngor Cymuned Llanberis. Dwn 'im – chdi sydd i benderfynu oes yna ormod o dai ha' yn Llanberis, 'ta gormod o "dai sgwennwr llyfra'."

# O SENEDDAU'R FRO

**Llongyfarchiadau i Bwyllgor Addysg Gwynedd am iddynt roi heibio'r syniad o godi tâl ar blant am gynnig arholiadau lefel O.**

Mae Cyngor Cymdeithas Llanddeiniolen yn bryderus iawn ynglŷn â phroblemau dŵr yn ardaloedd Dinorwig a Fachwen. Gormod o ddŵr sy'n achosi peth problem – llifogydd yn achosi difrod i dai ac eiddo, a thraeniau yn gorlifo oherwydd nad ydynt yn cael eu glanhau yn gyson.

Cwestiwn arall i'w ofyn ynglŷn â dŵr yn yr ardal hon yw – a yw'r dŵr yn addas i'w yfed? Mae amryw o'r trigolion lleol yn amheus o burdeb y dŵr, a gofynnir i gynrychiolydd yr ardal ar Gyngor Arfon ddwyn y mater i sylw Swyddog Iechyd y dosbarth ar unwaith.

CEGOG

Ydach chi wedi clywed y gŵr parod ei dafod sy' byth a hefyd yn beirniadu'r aelod sy'n ei gynrychioli ar y Cyngor Sir, neu unrhyw Gyngor arall o ran hynny?

Ydy, mae'n hawdd beirniadu yn tydi, a thaflu baw am ben ymdrechion eraill.

Mae etholiadau'r Cyngor Sir ar y trothwy. Dyma gyfle gwych i'r gwŷr (a gwragedd) cegog, beirniadol i gynnig eu hunain fel cynrychiolwyr tros eu hardal. Mae croeso i chwi gynnig eich gwasanaeth. Peidiwch â cholli'r cyfle i wneud yn well na'r sawl yr ydych mor barod i'w feirniadu.

Fyddwch chi'n llwyddiannus dybed? Wel, mae hynny'n dibynnu'n llwyr ar farn gyfrinachol eich cyd-ardalwyr. Efallai y bydd iddynt deimlo nad oes "digon o gic" ynoch, ac ar y llaw arall efallai mai'r teimlad fydd eich bod yn 'gr'adur rhy gegog."

Oes, ma' 'na lawer o wirionedd yn y geiriau – "na fernwch, fel na'ch barner."


GORS BACH
PANEL
BEATING
SERVICE
Cwm-y-glo

Ffôn : LLANBERIS 814

GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR



AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO ...............

Eric Morris



Arvonia Coaches
LLANRUG
FFÔN WAUNFAWR 254

# SIBRYDION O'R YSGOLION

## YSGOL BRYNREFAIL

### LLWYDDIANT

Enillodd Delyth Williams, Cwm-y-glo (aelod o'r 6ed dosbarth) gydradd gyntaf am gynllunio lifrai i staff Theatr Gwynedd. Y mae Delyth yn dilyn cyrsiau safon A mewn Celf, Gwnïo a Saesneg. Trefnwyd y gystadleuaeth gan y Theatr i ddisgyblion gwniadwaith ysgolion Gogledd Cymru. Derbyniodd Delyth arian yn wobr a chafodd yr ysgol wobr ariannol hefyd. Cafodd Louise Kilsby, Penisarwaun a Gwyneth Green, Cwm-y-glo, y ddwy o'r 6ed dosbarth, wobrau yn yr un gystadleuaeth am waith o safon uchel.

Yn y "Western Mail St. David's Day Children Compeition" daeth Ian Wyn Williams, 4A, Deiniolen yn gyntaf yn nosbarth C. Y mae Ian wedi ennill nifer o wobrau am ei luniau erbyn hyn, ac yn arlunydd addawol dros ben. Dewiswyd lluniau gan Julie Leatherbarrow 2A, Deiniolen a Marian Jones 6ed dosbarth, Penisarwaun i'r arddangosfa hefyd. Cafodd yr ysgol wobr am gael mwy o lwyddiant nac unrhyw ysgol arall yn y gystadleuaeth.

### TRIPIAU

Trefnwyd trip o'r ysgol i weld drama Gymraeg Eigra Lewis Roberts "Gwreichion", yn cael ei pherfformio yn Theatr Gwynedd yn ddiweddar.

Bu tua hanner cant o ddisgyblion, hefyd, yn gweld y ddrama "King Lear" yn y Theatr nos Fercher 23ain o Fawrth.

Yn ddiweddar aeth tua hanner cant o fechgyn y 5ed a'r 6ed dosbarth i ffatri "Fords" yn Halewood. Y mae'r bechgyn yn astudio Arlunio Technegol a bu'r ymweliad â'r ffatri yn agoriad llygaid iddynt.

### CRONFA MR. ROBIN WILLIAMS

**Casglwyd £65 yn yr ysgol tuag at y "British Heart Foundation" er cof am Mr. Robin Williams.**



**Tîm Pêl-droed Ysgol Gynradd Bethel**

**Rhes ôl: o'r chwith i'r dde:** *Neil Jones, Stephen Roberts, Peter Sharp, Carl Philipson, Gwyn Morgan, Meirion Jones, Jarrod Jones, Mr. Ellis R. Jones.* **Rhes flaen:** *Andrew Evans, Aneurin Jones, Mark Owen, Alan Williams, Paul Humphreys, Gareth Hughes, Alan Owen, Paul Williams*

## Byd y Snwcer ●●●●●●



*Tîm o hogia' Ifanc o Lanrug a fu'n chwarae am y tro cyntaf yng Nghynghrair 'B' Snwcer Bangor a'r Cylch. Maent eisoes wedi ennill 4 gêm ac yn gyfartal mewn 14. 'Roeddynt yn 6ed yn y gynghrair ar ddiwedd y tymor. Go dda hogia — beth am anelu am y top y tymor nesaf?*

**O'r chwith i'r dde yn sefyll:** *Geraint Roberts; Clive Griffith; Ian Lewis; Dereck Roberts.*

**Yn eistedd:** *Dewi Williams; Tony Jones; Keith Jones.* **Y rheolwr yw: Mr. T. Jones, Rhos Rug.**

## GAIR O DDIOLCH

**Hoffwn ddiolch yma i Dilys Jones Brynrefail, am ei gwaith a'i chefnogaeth yn ystod y flwyddyn aeth heibio yn fy nghynorthwyo gyda'r dudalen hon. Bydd Dilys yn gorffen y mis hwn, oherwydd fod arholiadau'r Lefel A yn agosáu, a bydd Anwen Jones, Penisarwaun yn cymryd ei lle am y flwyddyn nesaf. Diolch i Dilys unwaith eto, a chroeso cynnes i Anwen gan staff yr** ***Eco.***

## YSGOL GYNRADD PENISARWAUN

### GWYL DDEWI

Brynhawn Mawrth 1af daeth cynulleidfa dda o rieni i wrando ar y plant yn dathlu Gŵyl eu Nawddsant trwy ganu, adrodd a dawnsio. Diolch am y gefnogaeth.

### PÊL–DROED

Yn ystod mis Mawrth chwaraeodd tîm yr ysgol ddwy gêm gyfeillgar yn erbyn Ysgol Bethel. 'Roedd canlyniad y gêm gyntaf yn eithaf cyfeillgar hefyd, sef 1–1; ond colli fu'r hanes iddi gartref: – o 2 gôl i 1.

### 'STEDDFOD CYLCH YR URDD

Aeth Parti Adrodd a Pharti Dawns i gystadleuaeth yn y 'Steddfod, ac er na fu llwyddiant, gobeithir fod y plant wedi elwa o'r profiad o gystadlu.

## YSGOL DOLBADARN

### BUDDUGWYR

Llongyfarchiadau i aelodau'r Urdd Ysgol Dolbadarn a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod Cylch Arfon. Dyma'r buddugwyr: Canu dan 9: 2. Mark Parry; 3. Catrin Lennon. **Adrodd dan 9:** 3. Mark Parry. **Canu dan 12:** 2. Delyth Roberts; 3. Rhiannon Pritchard. **Adrodd Ail Iaith dan 12:** 2. Timothy Lloyd; 3. Julie Harris. **Canu'r Piano dan 12:** 1 Rhiannon Pritchard; 3. Lynne Jones. **Parti Recorders:** 1af. **Côr Adrodd:** 2ail. **Côr Adrodd Ail Iaith:** 2ail. **Parti Canu** 1af; **Côr:** 1af. Pob lwc iddynt yn Eisteddfod Sir Eryri, ddydd Sadwrn. Diolch i'r mamau fu'n cynorthwyo i ofalu am y plant ar fore'r Eisteddfod, Mrs. Vivienne Thomas, Mrs. Enfys Parry a Mrs. Ceinwen Williams.

### GWAITH CELF A CHREFFT YR URDD ERYRI

**Llongyfarchiadau i'r canlynol:**

**Peintio dan 10:** Dylan Owen – Ail **Peintio dan 12:** Lynne Jones – 1af. **Gwaith 3D dan 10:** Dylan Owen – 1af. **Gwaith 3D dan 12:** Dafydd Pritchard – 2ail. **Cywaith Pypedau "Triawd y Buarth"** – Melanie Sellars, Anita Guck, Julie Harris – ail. **Tegan meddal:** Allison Roberts – 3ydd. **Cywaith Panel Addurniadol** – Lynne Jones Carol Jones, Pat Pitts, Nia Jones Allison Roberts, Debra Harris, Judith Roberts, Maxine Thomas Anita Guck – 1af.

Bydd y goreuon yn mynd ymlaen i'r Barri.



*Gwilym Roberts a Delyth Williams (Enillwyr Deuawd Canu "Mab a Merch")*

## MWY O ENILLWYR EISTEDDFOD YSGOL BRYNREFAIL

### RHAGOR O GANLYNIADAU (parhad o'r mis diwethaf)

#### AIL IAITH

**DOSBARTH 6:** 1. Helen Hughes, (Elidir); 2. Ian R. Williams (Eryri)
**DOSBARTH 5:** 1. Eryl Roberts (Eryri) 2. Cynthia Johnstone (Elidir); 3. Lynn Jones (Elidir)
**DOSBARTH 4:** 1. Annette Knox (Eryri); 2. Anwen Hughes (Elidir); 3. John Flint (Eryri); Christpher Cheers (Eilian(
**DOSBARTH 3:** 1. Phillipa Rhodes (Elidir); 2. Helen Anthaire (Eryri); 3. Susan Jones (Eilian)
**DOSBARTH 2:** 1. Julie Leatherbarrow (Eryri); 2. Carolyn Jones (Eilian); 3. Tracy Marchant (Eilian)
**DOSBARTH 1:** 1. Anthony Ponton (Elidir); 2. Wayne Hope (Elidir); Christopher Ponton (Eryri)

#### YSGRIFAU SAESNEG

**DOSBARTH 6:** 1. Dilys Jones (Elidir); 2. Gail Haycroft (Gwyrfai); 3. Helen Hughes (Elidir)
**DOSBARTH 4 a 5 Set 1:** 1. Elaine Brailsford (Elidir); 2. Eira Wyn jones (Gwyrfai); Susan Owen (Eilian) 3. Dewi Williams (Elidir.
**DOSBARTH 2 a 3 Set 1: 1. Debbie** Morton (Gwyrfai); 2. Kathy Williams (Gwyrfai); Enid Wynne (Eilian); 3. Wendy Roberts (Eilian)
**DOSBARTH 4 a 5 Set 2:** 1. Marion Williams (Elidir); 2. Gwilym Roberts (Eilian); 3. Geraint Rolands (Gwyrfai); Lynne Williams (Eilian); Gwenno Jones (Eryri)

# CLYBIAU IEUENCTID

gan Y Cynghorydd Gwyn O. Jones

**Mae cryn dipyn o waith chwilota a chynllunio wedi mynd i sicrhau adeiladau ym mhentrefi'r fro i gynnal Clybiau ar gyfer ein pobl ifanc. Dyma i chwi restr ohonynt:**

### NANT PERIS

Cyfarfu Clwb Nant Peris ar nosweithiau Gwener ac ar wahân i'r rhaglen amrywiol sydd wedi ei darparu, mae'r aelodau wedi cychwyn prosiect i ddarparu map ar droetffyrdd yr ardal a gobeithir casglu peth gwybodaeth hefyd am ystyr yr hen enwau sydd ar y ffermydd ac adeiladau eraill a chaeau.

### LLANBERIS

Mae dros gant o bobl ieuainc yn aelodau o Glwb Llanberis sy'n cyfarfod ar nosweithiau Llun a Gwener yn Neuadd yr Eglwys. Gweithgareddau fel ymarfer corff, codi pwysau, ffilmiau a gymer le yma, ac yn ychwanegol rhoddir cyfle i'r ieuenctid ymarfer yn y Clwb Badminton sy'n cyfarfod ar nosweithiau Mawrth.

### BRYNREFAIL

Colled i ieuenctid Brynrefail oedd cau Hafod Meurig ond erbyn hyn mae darpariaeth ar eu cyfer yn festri'r Capel ar nosweithiau Llun ac edrychwn ymlaen am raglen ddiddorol wedi i'r Clwb setlo i lawr yn ei gartref newydd.

### LLANRUG

Hen Ysgol Glan Moelyn yw cartre'r Clwb yn Llanrug ac yma mae darpariaeth ar gyfer dwy noson, sef nosweithiau Mawrth a Iau. Yma eto cawn raglen amrywiol.

Deëllir fod bwriad i atgyweirio a gwresogi yr adeilad a bod Pwyllgor yr Eglwys wedi cyfarfod i drafod hyn.

### CWM-Y-GLO

Cyfarfu Clwb Cwm-y-glo ar nosweithiau Iau yn yr Ysgol Gynradd. Agorwyd y Clwb ym mis Ionawr. Bwriad trigolion y pentre yw cydweithio yn gymdeithasol i helpu'r bobl ieuainc i helpu eraill. Mawr obeithir y bydd ffyniant i'r fenter ac y bydd yn gyfrwng i bontio'r gagendor sy'n aml rhwng oedolion a phobl ieuainc.

### PENISARWAUN

Noson cyfarfod Clwb Penisarwaun yw nos Fawrth. Dengys fod gweithgareddau distaw fel dangos ffilmiau, sgyrsiau a chwisiau yn profi poblogrwydd y clwb drwy gyfartaledd presenoldeb uchel yr aelodau ymhob cyfarfod.

### DEINIOLEN

Defnyddir yr ystafell ymgynnull a bwyta yn ysgol Deiniolen fel cartref dros dro i'r Clwb sy'n cyfarfod ar nosweithiau Llun.

Mae cynlluniau eisoes ar y gweill i adeiladu darn newydd ar yr ochr isaf ynghlwm â'r ysgol ac yma bydd bar coffi ac ystafell chwaraeon ar gyfer yr ieuenctid a'r gymdeithas.

### DINORWIG

Hen ysgol a ddefnyddir fel canolfan gymdeithasol yw cartref Clwb Dinorwig. Noson cyfarfod yw nos Fawrth. Yma eto ceir amrywiol weithgareddau oddi fewn y terfynau posibl.

Ychydig iawn o glybiau ledled Cymru a all ddweud fod tair medal aur Cymdeithas Gymraeg y Clybiau Ieuenctid wedi eu hennill gan aelodau'r clwb am farddoni, cyfansoddi cân ysgafn ac ysgrifennu.

Dengys cyfartaledd uchel presenoldeb yr aelodau boblogrwydd y clwb yma eto.

### BETHEL

Fe agorwyd clwb Bethel sy'n cyfarfod ar nosweithiau Iau ym mis Ionawr. Mae Pwyllgor o aelodau'r clwb wedi eu ffurfio a rhaglen o weithgareddau ar y gweill.

Ar wahân i'r gweithgareddau a gynhelir yn y clybiau, trefnir cystadleuthau ar raddfa Rhanbarth gan y Swyddog Ieuenctid. Rhydd hyn gyfle i'r clybiau gynnal gornestau rhagarweiniol i ddewis eu cynrychiolwyr yn y cystadleuthau nofio, tenis bwrdd drafftiau, gwyddbwyll, dartiau, pêl-droed pump bob ochr, gwybodaeth gyffredinol, pêl rwyd, cwisiau ar Lyfrau Cymraeg ac eraill.

Yn ystod 1976 bu 36 o ieuenctid yn Ne'r Almaen am bythefnos a daeth parti o Almaenwyr am bythefnos i Fangor. Ceisir trefnu y: un ddarpariaeth ar gyfer y flwyddyn hon.

Fel y crybwyllwyd eisoes, mae llawer iawn o'r mannau cyfarfod ymhell o fod yn ddelfrydol ond bydd polisi o wneud darpariaeth gymdeithasol ynghlwm wrth ysgolion a hefyd rhoi grantiau cyfalaf i neuaddau pentref a chanolfannau cymdeithasol yn gwella'r sefyllfa dros y blynyddoedd nesaf.

Er fod lle i ymfalchio fod oddeutu hanner yr arweinyddion rhan-amser a gyflogir wedi derbyn hyfforddiant dan gynllun mewn cydweithrediad ag Awdurdod Clwyd a Chyfadran Addysg y Brifysgol ym Mangor, ni fydd y sefyllfa yn foddhaol nes bo'r gweddill hefyd wedi eu hyfforddi.

# LLYFRAU

"Gwynt i Owen" a "Haul i Fochyn" yw'r hen ddywediad ynte? Hynny yw os caiff oen ei eni a hithau'n wynt bydd gwell cyfle iddo sychu ac fe ddaw yn ei flaen yn oen iach a nobl. Felly'r mochyn dan belydrau'r haul. Cefais y pleser o ddarllen "Gwynt i Oen" gan John Ellis Williams y dydd o'r blaen a chefais fwynhad mawr. Nofel ydyw wedi ei hysgrifennu gan lenor lleol yn nhafodiaith y Dyffryn ac yn seiliedig ar y Dyffryn. Nofel a ddylai fod ym meddiant pawb o ddarllenwyr yr *Eco*. Mae'n hunangofiadol ac yn gyffrous a disgwyliaf y cawn fwy o nofelau o'r math yma gan y llenor dawnus hwn o Benisarwaun.

Ddyweda i ddim am gynllun y nofel – a'r unig beth alla i awgrymu ydyw – ewch yn ddiymdroi i'r siop lyfrau a phrynwch "Gwynt i Oen".

Pris: 75c. Gwasg Gwynedd.

Y CASGLWR – Gwelodd y Cylchgrawn newydd "Y Casglwr" olau dydd yn ystod y mis. Yn ei ragarweiniad dywed y golygydd John Roberts Williams, 18 Minffordd, Llanrug, "A phwy yw'r casglwyr? Yn syml, pob un sy'n prynu llyfr hen neu newydd, neu sy'n prynu darlun neu record o unrhyw gyfnod. Nid at arbenigwyr yr apelir..."

Mae Mr. Williams yn derbyn aelodau newydd. Cylchgrawn diddorol iawn i'r casglwyr.

Argreffir gan Wasg Gwynedd.

# PWY ALL HELPU ?

Neilltuir ychydig ofod yn yr *Eco* bob mis o hyn allan i geisio datrys problemau ac anawsterau a gaiff rhai pobl ar ôl dod o hyd i hen greiriau lluniau, posteri ac ati. Mae stôr o'r rhain ym meddiant y golygydd ar hyn o bryd ac ni wyddys fawr iawn amdanynt. Os gŵyr rhywun rywbeth am yr hen ddeunydd yma, cysylltwch â'r golygydd yn syth. Peth annifyr iawn yw cael rhywbeth yn eich meddiant na wyddoch unrhyw beth amdano.

Dyma ddau beth y mis yma




**Dymuna cyfaill gael gwybod pa flwyddyn y chwaraewyd y gemau uchod. Pob hwyl i chwi ar eich ymchwil.**



**Hoffai Mrs. Mair Roberts, 17 Tenby Drive, Cheadle Hulme, Cheadle wybod a oes rhywun yn rhywle yn gwybod rhywbeth am y teulu yma, ac hefyd am y ffotograffwr – Guy Hughes, Clwt-y-bont?**

**CYFRANIADAU**

£1: Gwrandawr – Deiniolen; £5: Di-enw; £1.50: R. Jones, 11 Station Rd., Loughton, Essex; £2.: Mrs. Rose Fowler.

Diolch i'r uchod am eu cyfraniadau hael.

Yn ystod amser ar y cyngor, mae'r adran ieuectid wedi fy siomi ar yr ochr orau, gydag ychydig iawn o arian cyflawnwyd gwasanaeth gwerthfawr iawn i'n pobl ifanc. Mae diolch i'r arweinwyr ac i'r swyddogion, sef Mr. Richard Parry a Mr. E. Jones, am eu brwdfrydedd a'u heffeithiolrwydd.


Am waith adeiladu RHAGOROL am bris RHESYMOL cysylltwch a

**B. Kavanagh**

CONTRACTWYR ADEILADU

7 MILLS ROW
BLAENAU FFESTINIOG
*Ffôn : 268*

# NANT PERIS

**DIWEDD TYMOR** – Daeth tymor y Gobeithlu i ben; yn ôl eu harfer darparodd chwiorydd Rehoboth de parti i blant yr ardal. Mwynhaodd y plant a phawb eu hunain er fod y tywydd yn anffafriol ac yr oedd miri mawr yn y Festri.

**ANRHYDEDD HAEDDIANNOL** – Balch iawn ydym o gael llongyfarch Mr. Wm. Searell Jones, Elidir am yr anrhydedd a ddaeth i'w ran. Yn ystod mis Ebrill bydd Searell Jones, fel y'i hadwaenir yn y Nant, yn derbyn Medal Goffa Thomas Gee am ei ffyddlondeb i'r Ysgol Sul am dros bedwar ugain mlynedd. Mawr hyderwn y bydd ei iechyd yn caniatau iddo fod yn y Cyfarfod arbennig yn y Borth i dderbyn ei Fedal. Hyd y gwyddom dyma'r tro cyntaf i un o aelodau Rehoboth dderbyn yr anrhydedd yma. I'r gweddill ohonom dyma esiampl gwerth ei hefelychu.

**YN YR YSBYTY** – Dymunwn y gorau i Mrs. Pat Evans, 6 Bro Glyder tra yn yr ysbyty. Gobeithio y bydd yn ôl yn ein plith yn fuan wedi cael meddyginiaeth lwyr.

**EISTEDDFOD YR OFALAETH** – Llongyfarchiadau i blant y Nant i gyd ar eu gwaith da yn yr Eisteddfod. Daeth llu o wobrwyon i'r ardal a chipiodd aml un ohonynt y wobr gyntaf. Da iawn blant, daliwch ati.

**LLONGYFARCHIADAU** – Pleser mawr gennym fel ardal longyfarch Rhiannon Searall ar ei llwyddiant yn arholiad terfynol ei chwrs fel gweinyddes yn Ysbyty'r Brifysgol yng Nghaerdydd. Mae wedi ei phenodi fel "staff nurse" yn yr Ysbyty a dymunwn bob llwyddiant iddi yn y dyfodol.

# Ein gohebydd yn Washington!

**MAE ENW Angus McDermid yn gyfarwydd iawn i ni yn y fro. I'r ychydig iawn sydd ddim yn gwylio'r teledu – ef ydyw gohebydd arbennig y BBC yn Washington UDA ers 1972. Sawl gwaith y clywsom Richard Baker neu Angela Rippon yn dweud ar y newyddion** *"and now over to our special Washington Correspondent – Angus McDermid."*

Un o Fangor ydyw Angus McDermid ond mae'n hoff iawn o ardal *Eco'r Wyddfa* . Daeth i Fachwen dros y Nadolig a chafodd fwynhad o ddarllen yr *Eco.* Anrhydedd yn wir, felly, oedd derbyn y wybodaeth ganlynol ganddo o'r UDA.

Yr ydym yn gymharol agos yma i Arvonia, Virginia, ymhle mae gweddillion "gwladfa" Gymreig. Y mae yna hyd heddiw chwarel lechi, ond y mae'r iaith Gymraeg wedi diflannu o'r ardal, ac, hyd y gwelaf, mae'r bobl leol wedi colli eu cefndir.

Pwy oedd Thomas Robert Williams o Fachwen, tybed, a fu farw yn ddyn ifanc, 40 oed? Fel y gwelwch, y mae ei garreg fedd yn gymharol newydd, mewn cyflwr da, yn annhebyg i'r mwyafrif.




Dangos yr arwydd ar y llythyren 'G', efallai, ei aelodaeth o'r "freemasons".

Cymerais i lawr yr arysgrifennau yn gymysgiad o Saesneg a Chymraeg, hynny yw, gyda'r enwau yn Saesneg a'r testun yn Gymraeg. Ond mae'r ysgrifen (wedi ei gerfio ar y llechi) yn anodd iawn i'w ddeall. Efallai bydd rhai o'r testunau yn gyfarwydd ichwi.

**CERRIG BEDDI YM MYNWENT ARVONIA, VIRGINIA**

Er Cof am Griffith E., mab G.E. a Grace Davies, Ganwyd Gorph. 24, 1886. Bu Farw Medi 28, 1886. "Gadewch i blant bychain ddyfod attaf."

In memory of John O Hughes, Born at Llandinorwic, N. Wales, July 15, 1863. Died May 30th., 1916. "Huno mae yng ngwlad yr Estron, 'Mhell o gyrhaedd ceraint mad, Ond cant eto gyd gyfarfod, yn ei nefol hyfryd wlad."

In Memory of John M. Williams, Born Jan 18, 1936, died Feb 20, 1873. "Ni ddychwel mwy i'w dŷ, a'i le nid edwyn ef mwy.(?)

Owen J. Williams, born in Llanrug, Caernarvon, N. Wales, Jan.8 1865, died Nov.22, 1934

Ellen Jones Williams, Llandinorwic, 1853 – 1919.

William W. Griffith, born, Cefn y Braich, Rhiwlas, Mar. 10, 1883, Died Oct. 19, 1941.

E.J. Roberts ("Ned Bwlch") – 1830 – 1914.

In memory of Morris Roberts, Born May 16, 1864 at Waen, Pentir, Caernarvon, N. Wales. Died July 29, 1893. "Mewn oeraidd waraidd weryd, lle lletuaf dros tawel ennyd, Ystafell ddystaw hefyd, (?) lle eyni ni wys o bywyd (?) (wys o bwys y byd).

# PENISARWAUN

**PENBLWYDD YN 86** – Llongyfarchiadau i Mrs. H. Thomas, sydd yn byw gyda'i merch Mrs. M. Adlam yn 14 Bryntirion ar ei phebIwydd yn 86 oed ar 21ain Mawrth.

**SEFYDLIAD Y MERCHED** – Nos Fawrth, Mawrth 1af aeth aelodau'r sefydliad am ginio Gŵyl Ddewi i Westy Plas Ffynnon Llanwnda. Cafwyd cinio da a mwynhawyd y noson yn fawr. Nos Fawrth, Mawrth 29 disgwylir cael cwmni Mr. T.H. Williams, Y Waunfawr.

**I SELAND NEWYDD** – Bydd Dr. Danny Matthews gynt o 'Freshwinds' ac sydd ar hyn o bryd yn byw yn Seland Newydd yn edrych ymlaen yn eiddgar at gael copi o'r *Eco* bob mis. Diolch i'w dad a'i fam Mr. a Mrs. Matthews 'Freshwinds' am ei anfon iddo.

**DYDD GWEDDI BYD–EANG Y CHWIORYDD** – Cynhaliwyd gwasanaeth yn yr hwyr ar y 4ydd o Fawrth i ddathlu'r uchod. Yr oedd y cyfarfod o dan ofalaeth galluog Mrs. Eluned Jones, Cae Corniog, Mrs. Idris Owen, Minffordd oedd yn cyfeilio.

Cymerodd amryw o chwiorydd y pentref ran yn y gwasanaeth, yn eu plith Mrs. Edwin Thomas, Miss Anwen Jones, Miss Bronwen Rees Hughes, Miss Marian Jones, Cae Corniog, Mrs. Katie Williams, Mrs. Porter, Mrs. Blodwen Mowll, Mrs. Betty Rees Hughes, Mrs. Betty Edwards, Mrs. Nancy Jones, Mrs. Eirlys Jones, Mrs. Mary Davies, Mrs. Pat Larsen, Mrs. Green, Mrs. J. Price Jones, Mrs. Jennie Williams, Cae Corniog a Mrs. Percy D. Williams.

Daeth cynulliad da ynghyd a chafwyd cyfarfod bendithiol a thawel.

**DIOLCHIADAU** – Dymuna Nathan ac Eirlys Jones, Gwynant, Brynhyfryd ddiolch i'w cymdogion, ffrindiau a pherthnasau am eu caredigrwydd tuag at Nathan tra bu yn yr ysbyty ym Mangor ac hefyd wedi iddo ddod gartref.

Mae'r pentrefwyr i gyd yn falch o weld Nathan wedi gwella ac wedi dychwelyd o'r ysbyty.

**MRS. A.M. NAYLOR** – Dymuniadau da i Mrs. Naylor, 2 Cefn Coed; bu'n yr ysbyty ond erbyn hyn mae hi'n ôl gyda'i theulu yng Nghefn Coed.

**LLONGYFARCHIADAU** – i Gwyn Peris Jones am gael ei ddewis yn gapten tîm pêl-droed Cymru dan 18 oed. Dyma'r ail waith i'r anrhydedd yma ddod i'w ran ef. Bu Gwyn yn byw gyda'i deulu yn y Winllan, cartref ei fam Olwen Peris Jones am gyfnod. Ei dad yw John Peris Jones, y Feryllydd yng Nghaernarfon.

# CEUNANT

**ADREF O'R YSBYTY** – Da gennym ddeall fod Mrs. Jennie Jones, Tŷ Uchaf wedi dod yn ôl o'r Ysbyty ym Mangor. Dymunwn iddi adferiad llwyr a buan.

## Cefnogwch ein Hysbysebwyr

GELLWCH YMDDIRIED YN
JOHN TREVOR
Garej Hafod Llanrug
am geir newydd ac ail law rhagorol
BP

# DEINIOLEN



**DOSBARTH I**
**YSGOL GANOL DEINIOLEN 1936**

Erbyn hyn mae amryw o'r plant welir yn y darlun uchod yn neiniau a theidiau!

*Darlun trwy garedigrwydd Mrs. Eileen Jones, 7 Pentre Helen)*

**PRIODAS** – Dydd Sadwrn, Mawrth 26ain 1977 yng Nghapel Libanus, Clwt-y-bont, a'r Gweinidog Y Parch. Ifor Williams, yn gwasanaethu, priodwyd Miss Gwyneth Rees Jones, Ty Capel Libanus a Mr. Maldwyn Fretwell 3 Bro Llwyndu, Penygroes. Y morynion priodas oedd M/s Iris Rees Jones, chwaer y briodferch a Janice ac Alison Fretwell, chwiorydd y priodfab a'r gwas priodas oedd Mr. Malcolm Jones. Bydd Mr. a Mrs. Fretwell yn ymgartrefu yng Nghaernarfon ac eiddunwn bob dedwyddwch iddynt yn eu bro newydd.

**EISTEDDFODOL** – Hyfrydwch yw cyhoeddi llwyddiant arall yn hanes Eira Wyn Jones, 3 Rhydfadog. Y tro hwn enillodd y wobr gyntaf am 'sgwennu stori ditectif yn Eisteddfod Y Bala.

Llongyfarchwn hefyd Irfon Price Morris, Tai Dinorwig, Clwt-y-bont ar ei lwyddiant mewn dwy gystadleuaeth luosog yn yr Eisteddfod Rhyng-Golegol gynhaliwyd yn Aberystwyth ar Mawrth 12fed 1977. Daeth Irfon yn ail mewn cystadleuaeth o safon uchel yn yr unawd offerynnol a chipiodd y drydedd wobr yn yr unawd bariton.

**SEFYDLIAD Y MERCHED** – Nos Fercher, Mawrth 2ail yn ol ei harfer rhoddodd Sefydliad y Merched wahoddiad i Oedolion Deiniolen a Dinorwig i Noson Lawen a Swper. Daeth tyrfa dda ynghyd. Arweinwyd y cyngerdd yn hwylus gan Mr. R. Williams, 4 Tai Caradog a diolchwyd iddo gan Miss Priscie Roberts gan ei longyfarch yr un pryd ar gael yr anrhydedd o'i wneud yn Ynad Heddwch. Merched y Sefydliad oedd yn cymryd rhan gyda Mrs. Jennie Williams Dinorwig wrth y piano. Y gŵr gwadd oedd Mr. John Ogwen a chawsom storiau a darllen pennod ddiddorol o "Un Nos Olau Leuad" (Caradog Pritchard)

Cafwyd swper campus wedyn ac enillwyd y raffl gan Miss Nansi Edwards, Mrs. Mary E. Williams a Mrs. Nellie Hughes. Diolchwyd yn addas iawn i'r merched gan Mr. J. Evans, Clwt-y-bont ac eiliwyd gan Mr. W.M. Hughes, Rhiwen. Dymuna y Sefydliad ddiolch yn gynnes iawn i lawer o bobl y pentref am gefnogaeth o arian a nwyddau ac hefyd i Mr. Ieuan Williams a fu yn casglu a danfon yn ôl yr Oedolion o Ddinorwig ac oddi amgylch y pentref a hynny yn rhad ac am ddim. Cymwynas iawn ynte? Derbyniodd y Llywydd, Mrs. M.A. Thomas lawer gair o ddiolch oddi wrth y rhai oedd wedi mwynhau a gwerthfawrogi'r noson ac yn edrych ymlaen am y nesaf. Cofiwch rwan Ferched y Sefydliad!

**Nos Lun, Mawrth 28ain ceir noson** gyda Mr. a Mrs. Cymrig Hughes gyda hanes eu taith yn Awstralia trwy gymorth 'slides'.

**Y SEINDORF** – Y mis diwethaf dyrchafwyd tair geneth o'r "juniors" i'r brif seindorf, sef Karen Williams a Marina Roberts, y ddwy'n chwarae'r corned a Nia Williams "horn", llongyfarchiadau i'r dair. Sylwch mai tair geneth ydynt, "Beth amdani hogia?"


Gwahoddwyd y seindorf i chwarae o flaen y Frenhines ym Mangor ar Mehefin 22 1977. Ystyrir y gwahoddiad fel anrhydedd arbennig i'r seindorf a chyfle arall i gario enw da'r pentref ymlaen. Cafodd y seindorf y fraint o chwarae i'r teulu brenhinol unwaith o'r blaen – ar ymweliad y Fam Frenhines â Phlas y Faenol, rhyw ugain mlynedd yn ôl.

**Bydd y seindorf yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam ar Awst 1af 1977.**

**Llongyfarchiadau** – i Mr. a Mrs. Owen Gibson, 17 Hafod Oleu ar dderbyn ohonynt y rhodd o fab, Emyr Wyn, brawd i Sian Wyn a Dewi Wyn. Dymuna'r teulu ddiolch i feddygon a gweinyddesau Ysbyty Dewi Sant, Bangor yn ogystal ag i gymdogion a chyfeillion am eu caredigrwydd.

**CYDNABOD** – Dymuna Mrs. Mary Morris, Elfyn, Joyce a theulu y diweddar Mr. Richard Morris, 1 Tan-y-Foel, ddiolch o galon i holl berthnasau a chyfeillion am eu caredigrwydd â hwy yn eu profedigaeth. Hefyd dymunant ddiolch yn fawr i'r Parch. Ronald W. Roberts am ei wasanaeth yn yr angladd.

**BATHODYN PRESENOLDEB LLAWN YN YR YSGOL** – Wedi'r hanesyn yn rhifyn diwethaf yr *Eco* am y bathodyn enillodd Mrs. Jennie Evans (Cwm-y-glo gynt– am bresenoldeb llawn yn yr ysgol o 1910 i 1913; clywsom bod gan Miss Eleanor Jones, Madryn, Tai Marian fathodyn cyffelyb am bresenoldeb llawn o 1907–1910. Yn wir, aeth ein diweddar chwaer gam ymhellach gan ennill wats arian am gadw'r ysgol yn ddi-fwlch am gyfnod o bum mlynedd. Yn ychwanegol at y gwobrwyon uchod cafwyd amryw lyfrau gan y chwiorydd am beidio colli'r ysgol am gyfnodau o flwyddyn ar y tro, yn eu mysg llyfrau "Pawb ar Bopeth" a "Coginio a Chadw Tŷ" sy'n lyfrau prin erbyn heddiw.



**EGLWYS LLANDDINORWIG** – Nos Wener, Ebrill 22ain 1977 am saith o'r gloch yn Eglwys Crist Llandinorwig sefydlir y Parchedig Geraint Wyn Edwards yn Ficer Llandinorwig a St. Mair Dinorwig gan Archesgob Cymru – y Parchedicaf G.O. Williams ac Archddeacon Bangor, Y Parchedig Ganon Arfon Evans. Croeso cynnes i bawb.

**CAPEL DISGWYLFA** – Fore Sul, Mawrth 13eg yr oedd y capel heb gennad yno a chymerodd bachgen sydd wedi ei eni a'i fagu yn Eglwys Disgwylfa y gwasanaeth, sef Emyr Pritchard, 1 Deiniol Road. Mae yn flaenor ers 21 mlynedd ac yn organydd ers pymtheng mlynedd-a- deugain a da fuasai i lawer fod yno i'w glywed. Cafodd y fraint hefyd o chwarae yr organ newydd sydd yno, gyda llyfr emynau a roddwyd er cof am Mr. Hughie Jones, 4 Y Bwthyn gan ei briod Mae gennym fel eglwys le mawr i ddiolch iddo am yr holl waith mae wedi ei wneud ac yn ei wneud o hyd, fel ag y gwnaeth ei dad o'i flaen, William Edffrwd Pritchard (Pen Cerdd Edffrwd).

Hefyd yn y prynhawn bedyddiwyd geneth fach Mr. a Mrs. Eifion Williams Y Bakery, gan ein cyn-Weinidog, Y Parch. S.H. Williams, Cesarea.

**MERCHED Y WAWR** – Cynhaliwyd y 'Cinio Blynyddol' eleni yng ngwesty Gallt y Glyn, Llanberis a'r trefniadau hwylus wedi eu gwneud gan Mrs. Valmai Williams, Tai'r Faenol a Mrs. Margaret Roberts, Porth y Gogledd. Mwynhawyd y 'Noson Lawen' gan bawb ohonom.

Y mae prysurdeb ar hyn o bryd yn paratoi ar gyfer ymweliad y mis nesaf â Changen Llanddona gyda Mrs. B. May Williams, Rhydfadog a Mrs. Gladys Evans yn hyfforddi'r aelodau sydd i gymryd rhan yn y rhaglen adloniant.

Ebrill 18fed bydd y Delynores Miss Einir Wyn Owen yn ein diddori a rhoddir gwahoddiad i aelodau Clwb yr Henoed a rhai heb fod yn perthyn i'r Clwb i ddod atom i fwynhau y wledd sydd yn ein haros.


**Bargen**

ÔL-RIFYNNAU'R ECO

MAE yna ychydig o ôl-rifynnau o *Eco'r Wyddfa* ar gael. Beth am wneud casgliad cyflawn o ôl-rifynnau'r flwyddyn? Gyrrwch at y Golygydd, Gwên-y-Wawr, Llanrug. Pris 50c am 12 rhifyn.


## Agor Ffiniau'r Gorffennol

gan Mary Lloyd Williams B.E.M.

Y mae'r torgoch wedi cael cryn sylw yn ddiweddar. Fel hyn y canodd fy nhad wrth weled alarch marw yn Llyn Padarn. Sylwch fel y daeth y torgoch i'r angladd!

Yr alarch o'i barch âi i'r bedd – gwelwyd
Ei gelain i'r llygredd
Yn nofio mewn tangnefedd
Ar y llyn yn wyn ei wedd!

Llawer brithyll, er y brathu,–a ddaw
Yn ddiau i'w gladdu;
A thorgoch, ag "och" yn gu,
A wylant uwch ei wely.

*1920*

**TYLLUAN**

Deryn hynod yw'r un hwnnw, – llais cry',
Hyll ei sgrech a'i dwrw;
Mewn ceubren hen cwyna "hw"!
Anwar, beth yw ei enw?

1914

**Y CEILIOG**

Utgorn plygain yw'n seinio–ei glir dôn
Ar glawr dydd i'n deffro:
Cyn tyrr gwawr, cantwr o'i go
Ac ieir yn ei encorio.

*1909*
*Glan Rhyddallt*


**E& E.M.GREEN**

**SIOP GRON**

**PENISARWAUN**

Nwyddau Groser
Ffrwythau a Llysiau Ffres

*Dewis rhagorol*
*Croeso cartrefol*



**GWILYM JONES**
**Monumental Works**
**LLANRUG**

FFÔN CAERNARFON 2898

Gwaith Coffaol o bob math mewn llechi a gwenithfaen gan grefftwyr lleol

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
i holl ddarllenwyr
Eco'r Wyddfa



# Cadw Gwenyn

(parhad)

gan Islwyn Williams, Godre'r Coed, Brynrefail

**Soniwyd eisoes mai mêl yw cynnyrch mwyaf y gwenyn, ond ceir cŵyr hefyd fel is-gynnyrch ohono. Hyd yn gymharol ddiweddar dyma'r unig gŵyr y gwyddai dyn amdano.**

'Roedd cerflunwyr yr hen amser yn defnyddio gwêr wedi ei wynnu i lenwi diffygion yn eu gwaith. Honnai'r cerflunwyr gorau fod eu gwaith hwy wedi ei gwblhau heb wêr, neu fel y dywedid yn nyddiau'r Rhufeiniaid *'sine cera'*. Yn aml iawn heddiw byddwn yn terfynu llythyr Saesneg drwy ddweud *'yours sincerely'* yr hyn sy'n drosiad o *'sine cera'* – y ffordd o ddweud – yr eiddoch heb wêr. Y dyddiau hyn defnyddir gwêr gan fwyaf i gynhyrchu defnyddiau coluro, olew gwallt ac i wneud canhwyllau yn arbennig felly i'r Eglwys Babyddol.

Tystia llawer mai gwaith pwysicaf y gwenyn yw ffrwythloni planhigion. Hwy yw'r unig bryfed sydd i'w cael mewn digon o dorf, yn arbennig felly yn y gwanwyn, i ffrwythloni'n effeithiol. Mae'r gwenyn yn angenrheidiol mewn perllannau gan fod rhaid i'r mwyafrif o goed ffrwythau gael eu croes-ffrwythloni, hynny yw, rhaid i'r paill gael ei gario o un goeden i'r llall. Mewn arbrawf gymleth yn Sefydliad Garddwriaeth John Innes, darganfuwyd na allai gwynt groes-ffrwythloni planhigion y berllan yn foddhaol, felly, dibynnai'r gwaith yn llwyr ar y gwenyn.

### Y GWENYN


Perthyn y gwenyn i'r llinach o greaduriaid a elwir yn bryfed. Mae corff y gwenyn wedi ei rannu yn dair rhan – y pen, y frest a'r bol. Mae'n meddiannu tri phâr o goesau a dau bâr o esgyll, ac mae'r organau hyn wedi eu cysylltu wrth y frest. Nid oes ganddynt ysgyfaint; maent yn anadlu trwy dyllau bychain yn ochr eu cyrff ac mae pibellau mân sydd ynghlwm wrthynt yn cario ocsigen i bob rhan o'u cyfansoddiad. Wrth ehedeg gall y gwenyn fachu eu hesgyll i'w gilydd er eu galluogi i ehedeg yn gyflymach. Gallent eu defnyddio hefyd i oeri eu cwch ar ddiwrnod poeth neu i yrru allan arogl arbennig i ddenu atynt rai eraill o'u teulu.

Enw gwyddonol y gwenyn yw *'apis mellifica'*; gair Lladin ydyw sy'n golygu'n syml –casglwr mêl.

### COLYN

Gŵyr y mwyafrif fod pigiad y gwenyn yn boenus dros ben – dyma'r rheswm efallai fod cyn lleied yn eu cadw! Ond nid yw'n wybodaeth gyffredinol mai'r 'gweithwyr' yw'r unig rai sy'n pigo ac ni allent bigo ond unwaith. Ar ôl pigo maent yn marw. Gan fod y colyn yn debyg i fach pysgota, unwaith y plennir ef i'r cnawd ni all y wenynen ei dynnu'n ôl. Oherwydd hyn mae'r colyn yn cael ei rwygo oddi wrth gorff y gwenyn, a gan ei fod yn ffurfio rhan o'r gyfundrefn nerfau mae'n marw ymhen yr awr.

Dengys hyn nad yw'r colyn o fudd i wenyn unigol; arf yn unig yw i ddiogelu'r drefedigaeth a'u stôr. Maent yn defnyddio'u colyn ambell dro ar wenyn dieithr sy'n ceisio lladrata o'r cwch, neu'r gwenynwr os nad yw'n ofalus!



# O Gaban y Chwarel



### ARWYDDION TYWYDD

**TYNGAI Mr. Harry Jones, Tŷ Uchaf, Ceunant mai y diweddar Richard Jones o Lanberis (tad Mr. William Madog Jones) fyddai'r arbenigwr tywydd gorau welodd y Chwarel erioed. Bu Richard Jones yn bracio ym Monc Penrhyddrowlar am 27 mlynedd ac oddi yno syllai ar Lyn Cwm Dwythwch, meddai Richard, Jones, "Os gwelwch chi wynab Llyn Cwm Dwythwch yn stormus – mae am law; os gwelwch ei wynab o wedi ei rannu'n ddau – mae hi am ddrycin." Disgwyliai Richard Jones i saith 'afon wen' ymddangos ym Mwlch Llanberis cyn y dechreuai godi'n braf ar ôl storm go hegar. 'Roedd ei broffwydoliaethau yn o agos i'w lle – wrth gwrs – mae Mr. Harry Jones yn dyst.**

**Wyddoch chi am arwyddion eraill? Gyrrwch y rhestrau i'r Golygydd.**



*Llun o lle ydi hwn? Dyfalwch yn gyntaf cyn darllen ymlaen... gawsoch chi o? Hen "Co-operative" Llanberis ydi o. Lle 'roedd o? Ar Ffordd Ty Du bron ar y cyffordd ger Llain Wen. Mae perchen y darlun i'w gweld yn y llun – sef Mrs. Julia Owen, 11 Dol Eilian, Llanberis – diolch iddi.*

MWY AM

# Y TORGOCH

gan David J. Roberts

**Pa le mae'r Torgoch yn claddu, a pha bryd? Mi ddechreuwn ni ym mhen isaf Llyn Padarn. Claddant ym mis Tachwedd a dechrau Rhagfyr, ar teneu Pen Llyn, teneu Llwyncoed a rhai ar teneu Alun, sef y teneu sydd yn ymestyn oddi ar gyfer pen isaf i Lyn Tan y Bont hyd at domenydd Chwarel Glyn Rhonwy.**

Mae torgoch y pen isaf i Lyn Padarn ychydig yn llai o faint ar gyfartaledd na rhai'r pen uchaf i'r llyn.

Mae rhai'r pen uchaf i'r llyn yn claddu yr un adeg sef Tachwedd a Rhagfyr.

Rhai ohonynt ar teneu Buwch a Llo, eraill ar teneu'r Dolydd. Welais i 'run erioed yn claddu ar y feiston yng ngheg yr afon, ac felly nid wyf yn cydweld â Dr. Rogers. Maent yn claddu o un pen i'r llall o Rhyd y Bala.

Cyn y rhyfel 'roedd tymor pysgota'r torgoch yn para i ddiwedd Hydref. Tuag at ddiwedd y mis pan fyddent yn hwylio i gladdu, byddent yn dod dros y feiston i fyny Afon y Bala ac arferem eu pysgota yn yr afon, rhai mewn cychod, eraill yn sefyll yn yr afon gyda 'wedars'.

Byddai'r cychod cyntaf yn angori ar y feiston o bobtu i'r afon a'r gweddill yn ymwthio i fyny i'r afon. Yr oedd yn rhaid gadael canol yr afon yn glir i allu pysgota.

Byddai'r rhai agosaf i'r feiston yn dechrau dal gyntaf, ond cyn ychydig o amser byddai pawb yn dal. Os oeddych yn sefyll yn yr afon, byddech yn teimlo y pysgod yn gwasgu yn erbyn eich coesau wrth ymwthio i fyny. Yr oedd yr heidiau mor drwchus, byddai yn oer iawn a'r barrug yn drwm, rhyw hanner awr fyddai y bachiad yn para'. Arhosai'r torgoch i fyny'r afon hyd nes torrai'r wawr, yna yn eu holau i'r llyn tan y noson wedyn. Ni fyddai bachiad arnynt bob nos er eich bod yn eu teimlo yn rhwbio yn erbyn eich coesau. Wedi pysgota am amser, cadw'r gêr, yna tynnu torch o'ch poced a'i goleuo ar yr afon, a gweld gwaelod yr afon yn llawn o dorgoch. Ni fyddai'r un yn edrych ar yr abwyd.

Byddai'r torgoch yn gwneud hyn bob nos hyd at ddiwedd Tachwedd, yna pan fyddai'r tymheredd yn eu ffafrio arhosant yn yr afon drwy'r dydd yn

*Llun Chwarelwyr Mills Chwarel Dinorwig wedi dod i law trwy garedigrwydd Mr. Arthur Vaughan Jones a Mr. Emyr Jones, Maesgerddi. Ydi'ch llun chi yna?*



Darllenwyd yng nghyfarfod ymadawol Richard Jones, Fachwen, Mehefin 1932

Mae hyn yn hen arferiad,
Yn awr ers amser maith;
Cydnabod ein cyd-weithwyr
Wrth droi eu cefn o'r gwaith:
A dyna welir heddiw,
Mewn adrodd, cân a llên
Wrth roddi ffon yn anrheg
I Richard Jones, Fachwen.

Cymysglyd ein teimladau,
Fel hyn wrth ganu'n iach
I'r gwron fu yn gyrru
Olwynion y trên bach.
A sieryd ei gyfeillion
Yn uchel am ei fri,
A hwythau'r hen domennydd
Lawn cymaint am wn i.

Daeth yma o Frynsiencyn,
Yn llencyn bychan tew,
Ond dywed Twm Tŷ Powdwr,
Mai yma magodd flew!
Ond nid yw bwys am hynny,
Gwna gamp i Owen Tom,
Sef aros adre i rodio
Yng nghwmni'i Fair a'i ffon.

Bu yma am flynyddau
Yn gyrru'r injian bach
A'i wyneb fel y fagddu,
Ond calon lân ac iach.
Fe ganai yn y ddrycin
Pan fyddai pawb yn syn;
A'i hobi ef a'r sarjant
Oedd poeni gŵr Pen Llyn.

Sawl bore du ymlwybrodd,
Cyn canu corn y gwaith,
Mewn trefn i gael "Maid Marion"
Yn hwylus erbyn saith
Esgynnai mil o wreichion
I entrych lân y nen,
Pan fyddai'r shed yng ngofal
Y dreifar o'r Fachwen.

Bu'n hwylus a llwyddiannus,
Gofalus gyda'r brac,
A'i chwiban oedd fyddarol
I deithiwr ar ei drac.
Bu hwn yn 'Royal Driver'
Un tro i'r "Prince of Wales".
A dywed Wil Jos Llwythwr,
Mai felly cadd ei bres.

Os am gael rhai o'i dricia,
Gofynnwch i Bob Huws.
Fe ddylai fod mewn 'Transport'
Am oes, tae hynny haws.
Fe werthodd lo du gwrw
I weddw Dic y dre;
A dywedodd ar ei farw
Mai marw oedd efe.

Ond bellach yn lle rhedeg
Y rwbel tua'r tip
Caiff fyned gyda Mari
Mewn moto bach am drip;
Yn lanach ei olygon
Nas gwelwyd ef erioed,
Yn harddach ac yn wynnach
Na'r eira ar y coed.

Dymunwn iddo lawer
O flwyddi gyda Mair,
A'i Grewr fo'n ei gynnal
Yn gadarn trwy Y Gair.
A phan ddaw gwŷs i fyned
I'r pur drigfannau llon;
Ei fyned fel bu Jacob,
A'i bwys ar ben ei ffon.

*Cyfaill*

**ENGHRAIFFT O GANU I CHWARELWR AR EI YMDDEOLIAD**

"Royal Driver" – pan oedd y brenin ar adeg canu'r gân yn Prince of Wales. Richard Jones a'i dreifiodd drwy'r chwarel o'r Dyffryn i'r Garet.

Cafwyd y gerdd uchod gan William Jones, Ffordd Padarn. Y mae ef yn fab i'r Richard Jones uchod.

nechrau Rhagfyr.

A dyna olygfa fyddai i'w gael oddi ar Bont y Bala wrth fynd i'r chwarel yn y bore. Byddai pawb yn aros ennyd i'w gweld. Y Rhyd yn llawn o dorgoch nes 'roeddynt yn ymgolli trwy'r bont a teneu Llyn Peris. Byddwn i, gyda llawer eraill yn mynd o Bonc y Muriau awr ginio at y bont i'w gwylio. Teneu'r llyn yn frith a'r pysgod yn ymestyn o'r bont draw at geg yr afon Gwenffrwd i gyfeiriad y castell a llond y rhyd wrth edrych at i lawr. Rhyw ddau ddiwrnod fyddai hi felly, yna byddant wedi diflannu'n ôl i'r llyn tan y tymor wedyn.

**DYCHAN DRAENOG**



Gan fod prisiau'n dal i godi yn y siopau tra mae cyflogau'n aros yn eu hunfan mae 'na sawl draenoges drist yn y fro hon yn dechrau teimlo'r esgid yn gwasgu. Peidiwch â theimlo'n ddigalon; gwnewch yr un fath â'r cyfoethog. Cerwch i Lundain am sbri siopa i godi dipyn ar yr hen galon. Pam nad ewch chi i Hermes Man's Shop yn 155 New Bond Street ble ceir y bargeinion yma – slipars lledr am £42.50 a choban nos o sidan pur am £236.00 neu wregys lledr am £135.50. Cofiwch frysio yno cyn iddyn nhw i gyd fynd.


# Y GŴR GWADD

********************************

**Dyma'r gyntaf o gyfres o erthyglau gan wŷr a gwragedd sydd neu wedi bod â chysylltiad ag ardal *Eco'r Wyddfa*. Bydd y golygydd yn cael hawl i ddewis ac i estyn gwahoddiad i nifer o bobl i gyfrannu i'r golofn.**

Mae'n bleser gennyf gyflwyno i ddarllenwyr yr *Eco* – Mr. O. Stanley Roberts, mab ieuengaf Mr. a Mrs. Owen Roberts, Eryri, Llanrug. Mae'n gyn-ddisgybl o Ysgol Llanrug ac yna Ysgol Brynrefail. Derbyniodd ei addysg bellach yng Ngholeg y Brifysgol Aberystwyth lle y derbyniodd radd B.Sc. a Diploma mewn Addysg. Dros ugain mlynedd bu'n dysgu yn y trofannau fel darlithydd mewn Coleg Addysg yn Kuala Lumpur, Malaysia ac yna yn athro Daearyddiaeth yn Nigeria a Zambia. Ar hyn o bryd mae'n Brifathro ysgol eilradd Perdana Wazir, Kuala Belait, Brunei Ynys Borneo.

Er hyn i gyd deil Stanley Roberts mai ei unig 'gartref' yw Llanrug. Croeso i'r gŵr gwadd.



Pan fyddaf ar wyliau yn fy hen gynefin yn Llanrug 'does dim mwy pleserus gennyf na chael "mynd am dro" o amgylch yr hen fro. Ac er nad oedd yr hin bob amser yn ffafriol iawn yn ystod fy ymweliad diweddar â Llanrug, cefais bleser mawr, ac adnewyddiad ysbryd, drwy grwydro unwaith eto ar hyd ffyrdd a llwybrau oedd yn gyfarwydd iawn i mi pan oeddwn fachgen.

Choelia' i byth fod y teledu a'r motor-car wedi achosi rhyw ddieithrwch mawr rhwng pobol a'u hamgylchedd agos. Mae pawb heddiw yn dod i wybod mwy a mwy am y 'byd mawr y tu allan' o wylio'r teledu, ac yn treulio mwy a mwy o amser yn crwydro y tu allan i'w hardaloedd eu hunain yn y motor-car. Onid oes perygl i ni golli ein harbenigrwydd broàol drwy golli'r cysylltiad agos rhyngom ni a'r fro lle trigwn?

O'r llu o 'fynd am dro' fu yn fy hanes yn ystod fy ngwyliau diweddar yr un a roddodd wir fwynhad oedd honno ar ddiwrnod sych-heulog o awyr las, a'r eira gwyn glân ar lawr ymhobman. Aethom o bentref Llanrug, heibio i Gastell Bryn Bras i Ben y Bwlch, ac aros yn y fan honno, fel ganwaith o'r blaen, a rhyfeddu at un o olygfeydd mwyaf gogoneddus yr holl fyd. O'r fan yma gallwn weld mynyddoedd Eryri yn eu holl ysblander, Llynnoedd Peris a Phadarn yn syth o danom, Castell Dolbadarn rhwng y ddau lyn, Chwarel Dinorwig, creigiau Fachwen, llethrau Moel Rhiwen a phentrefi Llanddeiniolen a hen gaer Dinas Dinorwig, ac islaw, mae Afon Saint yn hamddenol ddolenu drwy'r gwastadeddau i lawr at hen gastell Caernarfon. A thu draw i'r Fenai gwelir Ynys Môn, ac i'r gorllewin, yr Eifl a gwlad Llŷn. Wedi rhyfeddu yn hir ar yr olygfa yma, ymlaen â ni dros y Clegir a thrwy hen chwarel Glynrhonwy ac i lawr i briffordd yng nghanol Llanberis.

Cerdded wedyn ar hyd hen wely'r rheilffordd ar hyd ymyl Llyn Padarn, drwy'r twnnel ger Craig yr Undeb ac yna ar hyd yr hen ffordd at Benllyn ac aros yn hir ar y bont, a syllu i fyny'r llyn tuag at fwlch Llanberis, – a golygfa arall fythgofiadwy, ac annwyl iawn gan genedlaethau o ddisgyblion Ysgol Brynrefail. Ymlaen wedyn i fyny am Fachwen, a chofio am yr hwyl o fynd yn griwiau swnllyd am dro hir drwy'r 'creigiau' ar awr ginio ar ddyddiau braf yn yr haf o Ysgol Brynrefail. Dringo yn ara' i fyny'r allt serth, heibio'r tai haf (ac yn eu mysg, gartref fy hynafiaid, Craig y Fachwen) i Ddinorwig, ac yna gadael y ffordd a dilyn yn 'llwybr main', a ddefnyddid yn ddyddiol am flynyddoedd lawer gan genedlaethau o chwarelwyr i fynd a dod rhwng Llanberis a Dinorwig. Cyrraedd iard y chwarel, seibiant yn Llanberis am baned o goffi, ac yn ôl i Lanrug drwy Glynrhonwy a thros y Clegir a Phen y Bwlch.

Gallaf gymeradwyo'r daith gerdded yma i unryw rai sydd wedi mynd i dipyn o rigol, ac yn cael bywyd beunyddiol yn anniddorol a di-liw! Ar y ffordd cewch y pleser o weld golygfeydd bendigedig ac astudio daeareg, a daearyddiaeth, natur a hanes, heb sôn am gael gwell iechyd i'r corff!

Yn yr oes yma o or-eistedd ac o or-fwyta, peth da fyddai i ni i gyd neilltuo amser i ail adnabod ein hardaloedd ac i ymlacio ac ymfalchïo yn nhawelwch, prydferthwch a hanes bro ddihafal *Eco'r Wyddfa*. Hwyl fawr i chi i gyd!

# LLANBERIS



*Llun o Stryd Fawr, Llanberis ar droad y ganrif. Y llun trwy garedigrwydd Mrs. E. Owen, Bod Awen, Llanberis.*

## CYFARFOD DOSBARTH LLANBERIS (MC)

Ymwelodd y Cyfarfod Dosbarth â Rheoboth, Nant Peris ddiwedd y mis hwn. Cymerwyd y rhannau dechreuol gan Thomas Evans, Capel Mawr ac agorwyd y mater gan Iolo Llewelyn, Capel Mawr. Pwnc yr agorwr oedd "Awdurdod y Beibl". Llywyddwyd y cyfarfod gan weinidog yr eglwys. Cydymdeimlwyd ag un o ffyddloniaid y Cyfarfod Dosbarth, D. Glynne Owen, yn ei brofedigaeth yn colli ei briod, a llongyfarchwyd W. Searell Jones, 86 oed, ar ennill ohono Y Fedal Gee am ffyddlondeb oes i'r Ysgol Sul.

## LLAETH A MÊL

Bu Cymdeithas Ddrama, Llanberis yn teithio cryn dipyn gyda'r ddrama "Llaeth a Mel" gan Byron Jones yn ystod mis Mawrth. Perfformiwyd y ddrama yn Llanrug, Deiniolen, Conwy a Chaernarfon. Bydd y teithio am eleni yn dod i ben gyda pherfformiad yng Nglyn Ceiriog ar 2ail Ebrill.

## EISTEDDFOTA

Dyna hanes plant a phobl ifanc eglwysi (MC) Llanberis a Nant Peris, ganol mis Mawrth am ddwy noson. Cafwyd cystadlu brwd a graenus a nifer mawr o blant yn cystadlu. Ysgrifennydd yr Eisteddfod oedd Mrs. Vivienne Thomas, a'r is-ysgrifennydd oedd Mrs. Ceinwen Williams. Y trysorydd oedd Mrs. Margaret Jones, Y Llywyddion oedd Mrs. Margaret Jones, Caernarfon a Mr. Eurwyn Williams, Cilcain. Cafwyd rhoddion anrhydeddus gan y ddau at yr Eisteddfod, a chaed anerchiad priodol hefyd gan yr olaf. Arweinwyd yr Eisteddfod gan y Mri. T.J. Roberts, Idwal Lloyd Roberts, Myfyr Roberts a Cledwyn Parry. Cyfeiliwyd yn ddeheuig fel arfer gan Mrs. Ann Pritchard. Gofalwyd am y gwobrau a'r rhubannau gan Menai Hughes, Hilda Jones, Rhian Owen, Eleri Ellis, Elaine Jones, Amanda Sellers a Nia P. Jones.

Gofalwyd am y drysau gan y Mri. Alwyn Owen, Gwyn Williams a Gwyrfai Thomos. Hyfforddwyd y plant gan Mrs. Betty Rees Evans a Mr. John Davies. Daeth cynilleidfaoedd teilwng i'r Eisteddfod y ddwy noson. Y Beirniaid oedd Mr. Selwyn Griffith (adrodd); Mrs. Megan Roberts (cerdd); Mr. S. Pritchard (traethodau); Miss Jane Morris a Mrs. Sian Thomas (gwnio); Mr. John G. Williams (arlunio) a Miss E. Roberts a Mrs. Lennon (arholiad).

## CYFARFOD GWEDDI CHWIORYDD Y BYD

Trefnwyd y gwasanaeth hwn eto eleni a chymerwyd rhan gan chwiorydd y gwahanol eglwysi. Cynhaliwyd yn Nant Padarn (A). Mrs. Enid Mabel Williams yr ysgrifenyddes sy'n gyfrifol am drefnu'r gwasanaeth ers blynyddoedd.

## GWAELEDD

Y mae William Williams, Llys Eidda yn cwyno ers tro, ac Emyr Thomas Maes Padarn. Un arall sy'n cwyno yw Cledwyn Jones, Dolelidir. Dymunir y gorau iddynt yn eu gwaeledd am adferiad llwyr a buan. Mae Mrs. May Davies, Stryd Siarlot yng Ngallt y Sil ers peth amser. Yr un yw ein dymuniadau iddi hithau.

## CYNGOR EGLWYSI EFENGYLAIDD

Mawrth 15fed yn festri Nant Padarn. Ar fyr rybudd, oherwydd anhwyldeb y Parchedig George Brewer, cymerodd y Parchedig John Owen arweiniad y seiat drosodd. Cafwyd agoriad bendigedig ar y bennod gynta o'r llyfr "Pwy yw Duw?" gan Elfed ap Nefydd Roberts. Cafwyd trafodaeth fywiog gan yr aelodau a chan weinidog newydd Capel Jeriwsalem, Y Parchedig P.H. John Hughes. Cynhelir gwasanaeth cymun yng nghapel Gorffwysfa am 10 o'r gloch fore Gwener y Groglith o dan ofal y Parchedig P.H. John Hughes.

## Y GYMDEITHAS LENYDDOL (MC)

Daeth y Gymdeithas i ben gyda chinio Gŵyl Ddewi yn yr Erw Fair. Trefnwyd y noson gan y dynion o dan arweiniad Mr. Hugh R. Jones. Cafwyd eitemau gan Mrs. Annie Owen, Mr. John Davies, Mr. J.S. Thomas, Mrs. Ann M. Owen, Mr. William Jones a Mr. Gwynfor Williams. Llywyddwyd gan y Gweinidog a diolchwyd i bawb gan Mr. Cledwyn Parry. Codwyd Pwyllgor am 1977/8.

Cyfarfu'r pwyllgor nos Lun, Mawrth 21ain i drefnu ar gyfer y tymor nesa', sydd i ddechrau ar nos Lun, Hydref 24ain yng Nghapel Coch. **Llywydd:** Mr. Hugh R. Jones; **Is-lywydd:** Mr. Gwynfor Williams; **Trysorydd:** Mr. John Davies; **Ysgrifennydd:** Mrs. Dilys Baylis.

Trefnwyd rhaglen ddiddorol ac os dymunwch ymaelodi y tâl am y tymor fydd **20c.**

# Maes y Merched

**Dyma salad ychydig yn wahanol i roi amrywiaeth blas gyda phrif gwrs ac hefyd sy'n risêt hawdd ei baratoi ymlaen llaw ar gyfer gwesteion:**

### SALAD GAEAF

**4 coes o seleri**
**4 owns o gnau cymysg**
**2 o foron bychan**
**½ nionyn, sudd un lemon**
**1 afal sur. Carton o iogwrt.**
**(4 owns o ham os yn dymuno pupur a halen)**

Wedi sgwrio'r seleri'n lân torrwch yn ddarnau ¼" a chymysgwch gyda'r cnau mewn dysgl salad, gan ddefnyddio ochr fras y grater rhwbiwch yr afal, moron a'r nionyn drwyddo i ddysgl arall. Heb oedi tywalltwch y sudd lemon arno, rhag i'r afal droi ei liw, a'i adael am ddeng munud.

Cymysgwch wedyn gyda'r seleri a'r cnau ac i ystwytho'r salad ychwanegwch yr iogwrt.

*Gellir cadw'r salad mewn oergell am ychydig oriau ond dylai gael ei baratoi os yn bosibl, yr un diwrnod.*

Pam, deudwch, y byddwn yn torri ein gyddfau ein hunain wrth ddweud ein bod yn "mynd allan i weithio" neu wedi bod yn ffodus i gael "swydd rhan amser"? Onid yw "mynd allan i weithio" yn ymlygu i raddau nad ydym yn gweithio wrth fod adref? Ac os ydych wedi arfer, wrth lenwi ffurflen rhoi "housewife" fel eich galwedigaeth, beth am y rhestr a ganlyn y tro nesaf: nyrs, glanhawr cogyddes, cowntant, mam, golchwraig, ffrind, gwestwraig, peiriannwr, cynghorwr – mae'r rhestr yn ddi-ddiwedd!

*(Darllenwch "Housewife" Ann Oakley. Pelican: 80c)*

**Mam a'i merch fach yn astudio bwydlen mewn gwesty a'r fam yn egluro fod cyri braidd yn rhy boeth i'r fechan.**

**"Mi 'nai chwythu, Mam", oedd yr ateb. Dyna i chi resymeg!**

# TAN-Y-COED

**AELOD NEWYDD** – Pnawn Sul, Mawrth 20fed yng nghapel Tan y Coed a'r Gweinidog, Y Parch. W.O. Roberts yn gwasanaethu, croesawyd aelod newydd – Mrs. Elizabeth Ann Roberts Ty'n Llwyn a'i merch fach Sioned.

Daeth Mr. a Mrs. Roberts a Sioned i gartefu yn Nhy'n Llwyn, Mr. Roberts yn dod o Ryd-Ddu a Mrs. Roberts o'r Waunfawr. Croeso cynnes i'r teulu hwn i'n bro.

**CROESO ADRE'** – i Miss Nance Williams, Cartref wedi cyfnod yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor.

**MRS. CATHERINE EVANS** – Anfonwn ein cofion at Mrs. Catherine Evans Preswylfa sydd yn Ysbyty Minffordd.

**MRS. SHILTON** – Croeso adre hefyd i Mrs. Shilton, Tan-y-Coed Cottage sydd newydd ddathlu ei phenblwydd yn 91 oed, wedi ei harosiad â'i merch yn Middlesex ers mis Rhagfyr.

**DYWEDDIAD** – Cyhoeddir dyweddiad Miss Megan B, Griffith unig ferch Mr. a Mrs. Robert Griffith, Llys Meredydd a Mr. Robert J. Thomas Brynsiencyn. Llongyfarchiadau a dymuniadau da'r ardal i'r ddau.

**CAU SIOP** – Trist meddwl na fydd siop yn yr ardal yma ar ôl diwedd y mis. Bu dwy siop yma, ond yn awr bydd yr olaf yn cau, sef Siop Pant-y-Coed. Diolch am wasanaeth Mr. a Mrs. Blanchard fel siopwyr yn ein plith a'n dymuniadau da iddynt i'r dyfodol yn y Llythyrdy. Mi fydd Llythyrdy ym Mhant y Coed eto i'r dyfodol.

**CLWB METHEDIG ERYRI** – Ar 28 Chwefror cynhaliwyd cyngerdd i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi gan blant Ysgol Dolbadarn.

**MARW** – Ar 8 Mawrth bu farw Frank O. Lewis, 11 Dolelidir. Bu'r gwasanaeth yn eglwys St. Padarn, a rhoed ei weddillion i orwedd ym mynwent Nant Peris. Cydymdeimlir yn fawr â'r teulu yn eu profedigaeth fawr.

**BETHEL (E.F.)** – Yn Ysgoldy, Gorffwysfa nos Iau 24 Mawrth cynhaliwyd cyngerdd gan Barti Glannau Menai gyda'r elw yn mynd at achos Bethel (EF).

**PLAID CYMRU** – Cynhaliwyd cinio Gŵyl Ddewi'r Gangen leol yng Ngwesty'r Dolbadarn 12 Mawrth. Y gwahoddedigion oedd Mr. a Mrs. Dafydd Wigley, A.S. a Mr. a Mrs. Eurig Wyn (Trefnydd y Blaid yn Arfon). Cafwyd anerchiad gan yr A.S. ar hynt a helynt y Mesur Datganoli yn y Senedd. Arweiniwyd y cwmni mewn Noson Lawen gan Eurig Wyn. Cymerwyd rhan gan amryw o'r aelodau. Y Llywydd oedd T.J. Roberts.

**CYDYMDEIMLAD** –

Yn ystod y mis bu farw Mrs. Jane Pritchard, Central Garage a Mr. William Evans, 3 Thomas Street. Estynnwn gydymdeimlad i'r teuluoedd yn eu profedigaeth.

**GENI** – Llongyfarchiadau i Mr. a Mrs. Elwyn Jones, Bae Colwyn (Eluned Hughes, Stryd Siarlot gynt) ar enedigaeth mab – Dafydd Carwyn.

# a Goleuni a fu

*Dymuna trigolion Ffordd Capel Coch a Rhes Min Afon, Llanberis ddiolch i Mr. a Mrs. W. Roberts, Hyfrydle, Ffordd Capel Coch am adael golau yn eu drws ffrynt bob nos am 5 wythnos tra bu y lamp gyhoeddus wedi torri. Bu yn gaffaeliad mawr i bawb.*

*Cymydog*

# LLANRUG

**MERCHED Y WAWR** – Cynhaliwyd cyfarfod yn yr Ysgol Gynradd, nos Fawrth, Mawrth 8fed gyda Mrs. Nansi Roberts yn y gadair. Estynnwyd croeso i gangen Penygroes a threuliwyd gyda'r nos mewn canu ac adrodd o dan arweiniad Mrs. Talfryn Jones. Diolchwyd iddynt gan Mrs. G.A. Jones. Enillwyd y raffl gan Mrs. Ann Evans. Paratowyd lluniaeth gan Mrs. Williams, Gwelfryn, Mrs. Megan Thomas, Mrs. Beth Ann Williams, a Mrs. J.C. Williams Cydymdeimlwyd â theulu un o'r aelodau a fu farw, sef Mrs. Menai Owen, Llys Eryri. Bydd y cyfarfod nesaf Ebrill 13eg pan geir arddangosfa o waith llaw Ysgol Llandinorwig. Gan fod plant Ysgol Brynrefail yn cymryd rhan yn yr Ymgyrch Gwerthu Llyfrau Cymraeg ni fydd Merched y Wawr yn gwerthu fel a drefnwyd.

**DOSBARTH DR. EIRWEN GWYNN** – Daeth y cwrs o ddarlithoedd gan Dr. Eirwen Gwynn o dan nawdd Merched y Wawr, Llanrug i ben ar y 15fed o Fawrth. Ymunodd pymtheg o ferched, ieuanc ran fwyaf, â'r dosbarth, "Maeth" oedd y testun a chafodd llawer ohonom agoriad llygad ar y bwydydd di-faeth a fwytawn o ddydd i ddydd; e.e. gormod o siwgr, gormod o fara gwyn. Yn y cyfarfod olaf, cafwyd cystadleuaeth "Bwydlen o Fwyd Iach am Ddiwrnod". Yr oedd pawb yn gyfartal – disgyblion da i Dr. Eirwen Gwynn!

**PLAID CYMRU** – Perfformiwyd y Ddrama "Llaeth a Mêl" gan gwmni Llanberis o dan nawdd y gangen uchod yn Neuadd Ysgol Brynrefail. Ym mis Mai bydd Ffair Wanwyn yn yr Ysgol Gynradd.

**UNDEB Y MAMAU** – Cyfarfu aelodau Undeb y Mamau yn ddiweddar yn y Rheithordy. Llywyddwyd gan Mrs. Williams, y Rheithordy ac arweiniwyd y gweddiau gan y Rheithor. Ef hefyd roddodd sgwrs ar "Gofal o'r Eglwys". Yn deillio o'r drafodaeth penderfynodd yr aelodau roi help llaw i Miss Rowlands, y glanhawr drwy lanhau'r parwydydd a'r ffenestri. Penderfynwyd hefyd gyfrannu tuag at brynu liliau ar gyfer y Pasg. Rhoddwyd y te gan Mrs. Williams, Y Rheithordy, a diweddwyd y cyfarfod drwy weddi.

**YN GWELLA** – 'Rydym yn falch o weld Mrs. T. Williams, Ystad Afon Rhos a Llinos Davies, Bod Awel adref o'r ysbyty ac wedi cael meddyginiaeth.

**YN YR YSBYTY** – Dymunwn adferiad iechyd i Keith Williams, mab Mr. a Mrs. Goronwy Williams, Llys Ifor. Mae Keith ar hyn o bryd yn yr ysbyty ym Mangor.

**BABAN NEWYDD** – Llongyfarchiadau i Mr. a Mrs. Terry Lloyd, Llys Elen ar enedigaeth eu mab Dylan Lloyd. Bydd gobaith am aelod newydd i'r seindorf ac i'r eglwys.

**BEDYDD** – Bedyddiwyd Kevin, mab bychan Alan Reed ac Awen Davies, 2 Tai Arfonia yn ei gartref. Gwasanaethwyd gan y Parch. W.O. Roberts, a chynrychiolwyd Eglwys M.C. Pontrhythallt gan Mrs. E. Wh. Thomas, Dolwar.

**CWRS TRIN GWALLT ARBENNIG** – Bu Elaine Williams, Llys Llewelyn am gwrs wythnos o dan arweiniad Peter Webb, Birmingham. Ef yw hyfforddwr Tîm Cwpan y Byd mewn trin gwallt uwchradd.

**CYMDEITHAS CHWIORYDD CAPEL MAWR** – Cafwyd noson goffi. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Mrs. Jones, Ogwen. Anfonwyd ein cofion at y chwiorydd sydd yn wael a dymuno gwellhad buan iddynt. Balch oeddym o weld Mrs. Williams, Tremallt yn bresennol ar ol gwaeledd. Rhoddwyd y coffi gan Mrs. T. Evans, Lloc a Mrs. G.Owen, Glasgoed. Llywyddwyd gan Mrs. W.O. Roberts, Annedd Wen.

**NEWID TŶ** – Cyfeiriad newydd Y Parch. W.O. Roberts o hyn ymlaen fydd **"Annedd Wen", 17 Ystad Talybont, Llanrug. Y rhif ffôn fel ag o'r blaen.**

**ENNILL MEDALAU** – Bu'r rhai canlynol yn llwyddiannus mewn Prawf Dawnsio (yn yr Hen Ddull) o dan nawdd Cynghrair Dawnsio Prydain Fawr. Medal Bres: Mr. a Mrs. D. Williams; Mr. a Mrs. Vernon; Mrs. Joan Williams; Mrs. Catherine Griffith; Mr. a Mrs. McNall; Mrs. Gwyneth Roberts; Mr. a Mrs. J. Maxwell; Susan McNall; David McNall; Carol Griffith; Medal Arian: Mr. Griff Roberts; Mr. a Mrs. C.W.Williams. Llongyfarchiadau iddynt

**EISTEDDFOD YR URDD** – Llongyfarchiadau i Olwen Meredydd Jones, Partion Cerdd Dant (Cymry a Dysgwyr) a Pharti Dawnsio Gwerin yr Ysgol Gynradd. Pob lwc iddynt yn Eisteddfod Sir Eryri.

**CYFARFOD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD** – Cymerwyd rhan gan Mrs. Megan Williams, Mrs. Jean Davies, Mrs. Megan Owen, Mrs. Myfi Roberts, Mrs. Lydia Jones, Mrs. M. Evans (i gyd o Gapel Mawr), Mrs. Nesta Pritchard, Mrs. J.C. Williams, Mrs. M. Lloyd Williams (Pontrhythallt), Mrs. T.W. Thomas (Bryngwyn) Mrs. Jones Evans (Hermon) a Miriam Hughes (Tan-y-coed). Mrs. Nansi Roberts oedd y llywydd. Y cyfeilydd oedd Mrs. M. Lloyd Williams.

**CYFARFOD BLYNYDDOL Y CARNIFAL** – Cafwyd adroddiad ariannol ffafriol am 1976 gan y Trysorydd, Mrs. Dilys Jones a diolchwyd iddi am ei gwaith da. Swyddogion 1977 yw: Cadeirydd: Mrs. J. Williams, Llys Llewelyn, Trysorydd: Mrs. Dilys Jones, Llys Orwig; Ysgrifennydd: Mrs. H.E. Jones, Y Fedwen. Trefnir rhaglen fydd yn apelio at bob oedran gogyfer â'r carnifal a chynhwysir cystadleuthau newydd. Cynhelir y pwyllgor nesaf ar Ebrill 4ydd am 7.30 yn yr Ysgol Gynradd a chroesawir unrhyw un sydd â diddordeb yn y carnifal.

**GYRFA CHWILOD** – Yn ddiweddar cynhaliwyd Gyrfa Chwilod yn Ystafell y Seindorf. Yr MC oedd Mr. Terry Lloyd Jones ac enillwyd y gwobrwyon gan Bryn Williams, Mrs. Vera Williams a Gwen Oliver Jones. Diolchwyd i bawb gan Mrs. M. Roberts ac yn arbennig felly i Mr. John Williams, Gweledfa. Gwerthfawrogir hefyd waith gwirfoddol yr aelodau a fu'n atgyweirio'r adeilad dan gyfarwyddyd Mr. Arthur Jones, Llys Orwig a charedigrwydd cyfeillion a roddodd fenthyg offer at y gwaith. Croesawyd Colin Williams, 6 Glanmoelyn yn ôl i'r Seindorf wedi cyfnod hir yn Seindorf y Fyddin.

**CYDYMDEIMLAD** – Trist yw cofnodi marwolaeth Mrs. Catherine Menai Owen, Llys Eryri yng nghartref ei mab Ty'r Coleg, Bala. 'Roedd yn aelod ffyddlon o Gapel MC Pontrhythallt, lle mae ei phriod yn flaenor ac ysgrifennydd yr Eglwys. Cydymdeimlir yn ddwfn â'i phriod a'i dau fab a'u teuluoedd.

Mae'n cydymdeimlad llwyraf â theulu'r diweddar Mr. John Griffith Jones (John Nefyn) 20 Bro Rhyddallt. 'Roedd yn aelod ffyddlon o Gapel y Bryngwyn lle bu'n flaenor am un mlynedd ar hugain.

**MARW YN 101** – Yr wythnos hon bu farw Mrs. Hannah Parry (Bron Haul gynt) yr hynaf o drigolion y pentref. Mwynhaodd iechyd da ar hyd ei hoes. Ymgartrefodd ei thri mab yn Peterboro Canada, ond maent hwy a'u gwragedd yma i'r angladd. Ein cydymdeimlad dyfnaf â hwy a'u teuluoedd.

**PENNAETH NEWYDD** – Apwyntiwyd Mr. Derfel Griffith yn Bennaeth yr Ysgol Gynradd. Brodor o Fethesda yw Mr. Griffith ac mae'n briod a thri o blant. Ar hyn o bryd mae'n Bennaeth Ysgol Gymraeg Terrig, Treuddyn, Clwyd.

**MAES CHWARAE PWLL MOELYN** – Mwynhaodd nifer fawr o'r pentref a'r pentrefi cyfagos ginio a dawns yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis i godi arian tuag at Pwll Moelyn. Codwyd £85 ac mae'r diolch am y trefniadau yn mynd i Mrs. Dilys Mai Hughes, Mrs. Eryl Roberts a Mrs. Nerys Jones.

**PAPURAU NEWYDD HENI** – Daw'r Cynghorydd Gwyndaf Jones a phlant yr ardal o amgylch i gasglu papurau ddydd Sadwrn Ebrill 2ail.

---

*Gohebydd Llanrug o hyn ymlaen fydd* **Mrs. Eirlys Pierce, Swyn yr Awel, Ffôn: Caernarfon 3776.** *A fyddwch cystal ag anfon eich deunydd cyhoeddi iddi hi os gwelwch yn dda.*

---

ETHOLIAD
CYNGOR GWYNEDD

**Mabwysiadwyd Pat Larsen fel ymgeisydd y Blaid yn Etholiad Cyngor Sir Gwynedd dros Ward Brynrefail, Clwt-y-Bont, Deiniolen Dinorwig, Gallt y Foel, Llanrug a Phenisarwaun.**

**Yn ôl trefn swyddogol y Blaid o ddewis ymgeisydd enwebwyd tri aelod o ganghennau Deiniolen a Llanrug. Yr oedd hyn wrth reswm gyda chaniatâd y tri aelod. Pleidleiswyd ar y tri enw gan gynrychiolwyr y ddwy gangen a mabwysiadwyd Pat Larsen.**


STORFA
Mace
S.&E.
Jones
Llanrug
FFÔN: Caernarfon 2796
BLODAU A FFRWYTHAU
YW EIN
HARBENIGRWYDD

S. JONES
CYFANWERTHWR
FFRWYTHAU
(WHOLESALE
FRUITERER)
Y STORFA
LLANRUG
FFÔN
CAERNARFON 2790

10% oddi ar Bapur Wal a Phaent Leyland & Jellipex yn
E.WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS
MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

Gwesty Dolbadarn
Tŷ Rhydd-Feddiant
Llanberis
Perchennog Aneuryn Jones
FFÔN : LLANBERIS 277
MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS
NEU GINIO BLYNYDDOL
Hefyd
CANOLFAN DRECIO
Holwch am ein
telerau rhesymol


# WAUN-FAWR

**DATHLU GŴYL DDEWI** – Bu'r gwahanol Gymdeithasau yn brysur yn dathlu'r Ŵyl yn ystod y mis diwethaf. Aeth y Gymdeithas Undebol i swpera i Erw Fair, Llanberis a threfnodd Rol Williams raglen o adloniant ysgafn i ddilyn.

Bu cyfeillion yr Ysgol Feithrin yn swpera yn Nhan yr Onnen, Beddgelert, ac yno, Eurig Wyn oedd yn gyfrifol am yr adloniant. Yno, hefyd, anrhegwyd Mrs. Marion Iwan, Penyberth am bum mlynedd o wasanaeth diflino yn yr ysgol.

Dathlu efo Cawl a Chân yn yr Ysgol Gynradd a wnaeth Merched y Wawr. Llywyddwyd gan Mrs. N. Williams, Bryn Rhyd, Betws Garmon, a threfnwyd rhaglen amrywiol gan Mrs. M. Awstin Jones, Penrhos.

Yn yr Ysgol hefyd y cynhaliwyd swper Sefydliad y Merched. Llywyddwyd gan Mrs. H. Morfa Evans, Preswylfa, a mwynhaodd yr aelodau Sgwrs a Chân Mrs. Menna Williams, Pennant.

Gwahoddwyd Clwb Gwyrfai i'r Ysgol i Wasanaeth a Chyngerdd a drefnwyd gan y Prifathro a'r Athrawon. Wedyn mwynhawyd gwledd wedi ei pharatoi gan Staff y Gegin efo rhoddion gan rieni'r plant hynaf, – a nhw, y plant, oedd yn gweinyddu wrth y byrddau. Diolchodd y Parch. Trefor Jones i bawb am eu llafur a'u caredigrwydd.

**CYNGERDD MAWREDDOG NOS SUL Y PASG** – Fe'i cynhelir yng Nghapel Croes y Waun am 8 o'r gloch gan Gôr Godre'r Garth, Pontypridd dan arweiniad Wil Morus Jones. Y mae'r côr yn enwog drwy Gymru gyfan; am dair blynedd yn olynol, '74, '75 a '76 bu'n fuddugol yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Disgwyliwn gefnogaeth dda o'r ardal gan fod y côr yn werth ei glywed a'r elw ar gyfer Eisteddfod y Pentref.

**CWMNI DRAMA'R MERCHED** – Yn ddiweddar bu'r cwmni'n actio eu Drama Dditectif "Wythnos Ola'r Tymor" yng Ngarndolbenmaen a Phenygroes, ac y maent am roi dau berfformiad arall cyn diwedd y tymor, – yng Ngharmel a Phenrhyndeudraeth.

**YR AELWYD** – Cafwyd noson o ffilmiau gan Sinema Deithiol William Aaron yn Neuadd yr Eglwys, Mawrth 22ain.

Bydd Cwmni Drama'r Aelwyd yn perfformio dwy ddrama fer o waith Gwenlyn Parry ar 26 Ebrill.

**GWAELEDD**–Mae amryw o'r pentrefwyr wedi bod yn wael yn ddiweddar ac yn yr ysbytai. Ar hyn o bryd y mae Mr. Harry Jones, Fron Hyfryd; Miss L. Parry, Bodhyfryd; Mrs. K. Williams, Eirianallt; Mr. C. Chadwick, Tan y Coed a Mrs. Margaret Jones, Llannerch yn dal i fod yno. Dymunir iddynt wellhad buan.

**CYDYMDEIMLAD** – Yn ystod y mis bu farw Commander Hugh Lloyd Williams, Bryn Meredydd, Mr. J.B. Williams, Is Eilian, a Mr. A.R.Woolley, Penygraig. Cydymdeimlwn â'r teuluoedd yn eu profedigaeth.

**CROESO** – Croeso adref i Mrs. K. Wyn Jones, Siop Eilian ar ôl ei thaith i Ganada i ymweld â'i merch Nerys a'i hwyres fach.

## YSGOL SYR HUGH OWEN CAERNARFON

Cynhaliwyd Eisteddfod yr ysgol, ddydd Iau, Mawrth 24ain yn Neuadd yr ysgol.

**Unawd i enethod dosbarth 3,4:** 2. Nia Pritchard. **Adrodd, Dosbarth 3, 4:** 3. Gwenno Owen. **Unawd Offeryn Pres, Dosbarth 3, 4:** 2. Nicholas Lewis; 3. Neil Johnstone. **Unawd Bechgyn, Dosbarth 3, 4:** 1. Neil Johnstone.

# CHWEDLAU'R FRO



gan JOHN OWEN HUWS

**Yn y gorffennol, ni thrafferthai pobl ardal *Eco'r Wyddfa* fynd at yr heddlu os byddai eu heiddo wedi cael ei ddwyn. Yn hytrach, cerddent dros Gefn Du ac at hen ffermdy Cil-haul, ger y Waunfawr. Yno trigai'r dewin enwog Gruffydd Elis, neu Guto Cil-haul fel y'i gelwid ef drwy Ogledd Cymru. 'Roedd yr hen Guto'n ddyn craff iawn a defnyddiai ei wybodaeth o'r natur ddynol er datrys rhai o'i achosion mwyaf dyrys.**

Un tro, daeth gwraig gyfoethog o Fôn i Gil-haul i geisio cael ei gymorth i ganfod modrwy werthfawr a gollasai. Nid oedd Guto adref pan aeth yno, felly adroddodd yr hanes wrth ei wraig. Yna daeth Guto i'r 'stafell a synnu'r wraig drwy ddweud yn union beth oedd ei neges: 'roedd yr hen lwynog wedi bod yn gwrando drwy dwll yn y stafell wely uwchben! Gyrrodd y wraig yn ôl i Fôn gan ei rhybuddio i ddweud wrth ei gweision a'i morynion fod Guto Cil-haul yn dod yno ben bore Llun. Pan ddaeth yr hen Guto at giât y fferm ddydd Llun, 'roedd y forwyn bach yn ei ddisgwyl yno, a'r fodrwy yn ei llaw. Gwell oedd ganddi gyfaddef na chael ei chanfod gan Guto. Dywedodd yntau na chai ei chosbi os byddai'n ddistaw. Yna gofynnodd am damaid o does a gwasgai'r fodrwy iddo. Taflodd y toes i hwyaden a marciau arbennig ar iard y fferm, ac ar ôl ei gweld yn ei lyncu, dywedodd wrth y wraig gyfoethog am ei lladd. Gellir dychmygu ei syndod a'i hedmygedd pan ganfyddwyd y fodrwy goll!

Dro arall daliodd leidr drwy roi ceiliog o dan grochan wedi ei blastro â huddug mewn stafell dywyll. Dywedodd wrth bawb a amheuai y byddai'r ceiliog yn canu pan fyddai'r lleidr yn cyffwrdd y crochan. Pan oleuwyd y stafell 'roedd un â dwylo glân – y lleidr!

'Roedd Guto hefyd yn feddyg dyn ac anifail. Dywedir y medrai wella tor-calon cariad hyd yn oed. Yma eto defnyddiai seicoleg elfennol. Un tro, galwyd ef i dŷ yn y Bontnewydd. 'Roedd merch eithriadol o ddiog yno a wrthodai godi. Dywedai ei bod yn wael. Aeth Guto i stafell y ferch a dweud yn ei chlyw wrth ei rhieni am ferwi dŵr erbyn y deuai'n ôl o Gaernarfon. 'Roedd ganddo gyfaill o gigydd yno, meddai, a roddai fenthyg cyllyll iddo agor y ferch i'w gwella. Nid oes angen dweud fod y ferch yn holliach erbyn y dychwelodd Guto!

Un arall o ddoniau Guto oedd offrymu ysbrydion a aflonyddai ar dai. Sonnir am ei gampau yn y maes hwn ym Môn, Arfon a Dinbych. Ei ddull o wneud hyn oedd adrodd y swyn 'Rhad Duw-i-mi' drosodd a throsodd yng nghlyw'r ysbryd. Dywedir y medrai wneud yr un peth â'r Tylwyth Teg.

Adroddodd y diweddar Huw Jones, Meillionen hanes wrthyf a brofai boblogrwydd Guto yn yr ardal. Un tro, meddai, collodd gŵr o Gwm-y-glo ddeuddeg punt – swm go fawr yn y dyddiau hynny. Amheuai un o'i deulu ond ni chyfaddefai neb. Y diwedd fu iddo fygwth mynd at Guto os na ddychwelid yr arian erbyn y noson wedyn. Daeth yr amser ond dim arian, felly dyma'r dyn yn ei chychwyn hi am y Waun. Nid oedd ond wedi cyrraedd Bryn Bras nad oedd ei frawd wedi ei ddal a chyfaddef mai ef oedd y lleidr. 'Roedd sôn am nôl Guto wedi bod yn ddigon!

~•○•~


DEWCH I

**SIOP THOMAS PRITCHARD**

***IRONMONGER***

**BIRMINGHAM HOUSE**
**LLANBERIS Ffôn 206**

**am nwyddau a chelfi a bob math i'r cartref**

.......

**Carpedi, leino, Paent Valspar a Crown Papur papuro, Tsieni, Nwyddau Trydan a llawer MWY...........**

**OLL AM BRISIAU RHAD!**

**BARGEINION TOPDEC bob mis**


# DINORWIG

**DIOLCHIADAU** – Mae Mr. a Mrs. Eifion Griffiths, "Foel", Dinorwig yn gwerthfawrogi yn fawr garedigrwydd perthnasau, cyfeillion ac athrawon Ysgol Pendalar Caernarfon tuag at Dylan ar ôl ei ddamwain.

**DYDD GWEDDI BYD–EANG Y CHWIORYDD** – Bu gwasanaeth o dan nawdd yr uchod yn Eglwys St. Mair, Dinorwig prynhawn Gwener 4ydd o Fawrth dan arweiniad Mrs. Annie Roberts. Cymerwyd rhan gan Mrs. Dilys Williams, Mrs. M.W. Hughes, Mrs. Katie Griffiths, Mrs. Betty P. Roberts, Miss Lizzie Thomas, Mrs. Maggie Roberts, Mrs. Elizabeth Jones, Mrs. Maggie Evans, Mrs. Nellie Williams a Mrs. Annie Jones. Traddodwyd yr anerchiad gan Mrs. Dora Jones a gwasanaethwyd wrth yr organ gan Mrs. Jennie Williams. Gwnaed y trefniadau gan Mrs. Alice Griffith. Gwnaethpwyd casgliad o £2 er hyrwyddo Llenyddiaeth Cristnogol.

**YN YR YSBYTY** – Dymunir gwellhad buan i Miss Heulwen Jones, Cegin, wedi llaw-driniaeth feddygol yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor ac mae ar hyn o bryd yn cael triniaeth pellach yn Ysbyty Clatterbridge. Drwg deall fod Mr. John Peris Roberts, 11 Maes Eilian o dan driniaeth yn Ysbyty Môn ac Arfon. Gwellhad buan iddo yntau.

**LLONGYFERCHIR** – Miss Marina B. Roberts, Tŷ'r Ysgol ar ennill ar adrodd i rai o 9 i 12 oed yn Eisteddfod yr Urdd yn Ysgol Brynrefail.

**MARW** – Yn Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon bu farw Mr. Owen L. Jones 3 Bro Elidir Dinorwig. Bu'r angladd yn yr Amlosgfa Bangor, Sadwrn 19 Mawrth. Cydymdeimlir â'r cysylltiadau teuluol.


**YR ECO drwy'r post am flwyddyn**

*Cysylltwch â*
**Selwyn Williams,**
*(Trefnydd Gwerthiant)*
**Cartref, Stryd yr Orsaf, Llanrug.**
*Caernarfon 3577.*



**E.W.&M.WILLIAMS**



**Y BECWS**
**DEINIOLEN**
FFÔN : LLANBERIS 232

BARA FFRES – TEISENNAU BLASUS !

*(Rydym yn arbenigo mewn teisennau Priodas)*

***

DOSBARTHWN BOB LLUN, MERCHER A GWENER YN NEINIOLEN, DINORWIG, FACHWEN, PENISARWAUN, LLANRUG a BETHEL

# BRYN REFAIL

**DATHLU GŴYL DDEWI** – Cyfarfu Clwb yr Henoed i ddathlu'r ŵyl yn Nhŷ Glas. Mwynhawyd swper wedi ei baratoi gan garedigion y clwb. Cafwyd noson hwyliog gyda'r aelodau yn cyfrannu i'r difyrrwch wedi'r swper. Cafodd y Gymdeithas Lenyddol noson o ddathlu yng Ngwesty Holland Arms, Pentre Berw ar Fawrth 3ydd gyda gwledd gofiadwy. Y gŵr gwadd oedd Mr. I.B. Griffith, Caernarfon.

**YN YR YSBYTY** – Dymunwn yn dda i Mr. William Evans, Cae Gwyddel sydd wedi bod am gyfnod byr yn Ysbyty Môn ac Arfon ac sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Clatterbridge.

**CYDYMDEIMLO** – Yn ystod y mis a aeth heibio, collodd yr ardal ddau gymeriad hoffus. Mae ein cydymdeimlad yn ddwys â theulu Meillionen ym marwolaeth Mrs. Nannie Jones – 'gwraig foneddigaidd ymhob ystyr": dyna deyrnged y Parch. Angell Jones ddydd ei hangladd. Cyrhaeddodd oedran teg a bu'n ffyddlon i'r moddion yn y capel hyd yn ddiweddar iawn. Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd i deulu Bryn Cottage ar ymadawiad Mr. Bob Francis o'n plith. Brodor oedd o'r Fachwen ond wedi treulio y rhan helaethaf o'i oes yn Wigan yn dilyn galwedigaeth gyda'r Rheilffordd Brydeinig. Ymgartrefodd yma gyda'i ferch ychydig flynyddoedd yn ôl. Cofiwn am ei gyfarchiad siriol bob amser.

**GARTREF O SELAND NEWYDD** – Hyderwn y bydd Mrs. H.J. Jones, 7 Trem Eilian wedi cyrraedd adref yn ddiogel erbyn y bydd i'r geiriau hyn ymddangos. Disgwyliwn y bydd yn glanio yn Llundain ddydd Sadwrn, Mawrth 26ain. Mae plant yr Ysgol Bach yn dymuno croesawu nain Alwen a Caron yn gynnes iawn adref.

**NEWID BRO** – Deallwn fod Mrs. Beryl Jones, Tanygraig ar fin symud i fyw o'r pentref y dyddiau nesaf yma. Dymunwn yn dda iddi, un ag sydd wedi treulio ei hoes ym Mrynrefail, yn ei chartref newydd yn Llanberis. Un arall o drigolion y pentref sydd wedi symud yw Mr. T. Buckley Parry, Bryn Madog. Boed iddo gartrefu yn ardal Llanrug.

**CLWB Y MAMAU** – Cafwyd noson o cwis ar wybodaeth gyffredinol nos Iau, Mawrth 17eg a rhannwyd yr aelodau yn ddau dim. Trefnwyd lluniaeth gan Mrs. Jacqueline Jones, 1 Tai Orwig a Carol Houston, 2 Trem Eilian. Enillwyd y raffl a gyflwynwyd gan Mrs. Shirley Roberts, 1 Minffordd, gan Mrs. Pat Jones, Cae Coch.

**ROBIN** – Y mis yma bu farw "Robin" y corgi bach oedd yn adnabyddus i bawb o 12 Trem Eilian.





*Cwmni Drama enwog arall yn yr ardal – Brynrefail 1928.* **O'r Chwith i'r Dde yn sefyll:** *John Roberts, Cyril Davies, Thomas Williams, Edward Thomas, Owen Jeffrey Williams, David Owen.*
**Yn eistedd:** *William F. Williams, Mrs. Judith Thomas, John Thomas Roberts, Mrs. Mary Roberts, Owen Jones.*
*Y llun trwy garedigrwydd* **Mr. Griffith Pritchard, Brynrefail.**



**GWOBR AM ARLUNIO**

**Enillodd Ian Wyn Williams, disgybl yn nosbarth 4, Ysgol Brynrefail, Llanrug, y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth arlunio Gŵyl Dewi y Western Mail i blant rhwng 11 a 14 oed.**

Clywodd Ian y newydd ddydd Mawrth diwethaf ac mae bellach wedi derbyn gwobr o £10.

Y llun a enillodd y wobr iddo oedd hwnnw o flodau'n agor.

Bydd llun arall: "Sheet of Studies" i'w weld mewn arddangosfa a drefnir gan y papur.

Enillodd Ian wobr yn Eisteddfod yr Urdd eisoes gyda llun yn darlunio'r Mabinogion ac arddangoswyd lluniau eraill o'i eiddo yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Llwyddodd disgyblion eraill yr ysgol i gael lluniau yn yr arddangosfa: Julie Leatherbarrow, Patrick Clarke a Marian Jones.

Derbyniodd Ysgol Brynrefail wobr o docyn llyfr gwerth £10 yn ogystal am y cyfraniad gorau trwy Gymru.

# CWM-Y-GLO

**PEN BLWYDD HAPUS I CHWI** – Ar Ebrill 25ain bydd Miss Blodwen Williams, Afallon, Stryd Newydd yn dathlu ei phen blwydd yn 94 oed. Hi yw dinesydd hynaf y Cwm o ran oed ond yn sicr nid o ran ysbryd. Yn ferch hynaf o ddwy i'r diweddar Mr. a Mrs. Ifan Owen Williams, Bryn Tirion , Bwlch bu Miss Williams yn gweini yn fawr ei pharch am 45 o flynyddoedd.

Heb fod yn rhy dda-ei hiechyd yn ddiweddar, deil ei ffraethineb yr un, a'i diddordeb heb ball ym mhethau'r fro, ac mae'n dal i gysylltu â llu o ffrindiau o bell ac agos. Bu'n aelod ffyddlon yng Nghapel MC hyd ei gau. Ei chyfarwyddyd am oes hir yw gwaith caled a synnwyr digrifwch, ac os am sgwrs i godi'r galon, ewch am dro i Afallon. Dymunwn oll Ben Blwydd Hapus i chwi Miss Williams, gan edrych ymlaen at de parti gwerth chweil pan gyrhaedd wch y cant.

**CYDYMDEIMLAD** – Chwith gennym gofnodi marwolaeth yr olaf o blant adnabyddus Parciau Gleision gynt, sef Mrs. Nansi Jones, Meillionen, Penllyn. Bu'n aelod gweithgar a ffyddlon yng Nghapel MC Cwm-y-glo nes ei gau, pryd yr ymaelododd ym Mrynrefail. Collodd ei phriod, Mr. Hugh Jones fis Gorffennaf diwethaf, a chydymdeimlwn yn fawr â'r teulu yn eu trallod eto o golli mam a nain annwyl.

Cydymdeimlir hefyd ag un arall a fagwyd yn Y Cwm, sef Mr. William Hughes, – mab hynaf y diweddar Mr. a Mrs. Hugh Hughes, Tan y Graig ar golli ei briod hoff. Bu Mr. Hughes yn Orsaf Feistr yn Ynys am flynyddoedd, ac mae wedi dilyn hynt yr *Eco* o'r dechreuad. Derbynied ef a'r mab, a'r teulu i gyd, ein cydymdeimlad diffuant yn y golled fawr hon a ddaeth i'w rhan.

Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd i Miss Elizabeth Davies, Pant Afon, a Mr. a Mrs. Emlyn Davies a Helen, ar y brofedigaeth annisgwyl a ddaeth i'w rhan fel teulu, ym marwolaeth Mr. Frank Lewis, Llanberis.

**GWELLHAD BUAN** – Dyna yw'n dymuniad i'r ddwy chwaer Miss Annie ac Ellen Parry, Craig y Don sydd heb fod yn dda eu hiechyd yn ddiweddar, hefyd Mrs. Nan Rowlands, Bodafon.

**LLONGYFARCHION** – I Mrs. Susan Jones, 2 Dolafon ar ddathlu ei phenblwydd yn 21ain oed.

**LLONGYFARCHIADAU** – i Delyth Williams Nant Forgan, am ddod yn gydradd gyntaf mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan Theatr Gwynedd. Y gamp oedd cynllunio dillad ar gyfer staff y gwahanol adrannau o'r theatr. Mae Delyth wedi ymddiddori mewn pethau o'r fath ers yn eneth fach, ac mae'n ddisgybl i Mrs. Pat Lloyd yn 6ed dosbarth Ysgol Brynrefail.

**CLWB IEUENCTID** – Newydd ei sefydlu ddechrau'r flwyddyn mae'r aelodau yn mwynhau eu hunain dan ofal eu harweinydd Mr. Dafydd Price. Cynhaliwyd cwis yn ddiweddar, wedi ei drefnu gan Miss Jane Morris, Llanberis, a daeth pedwar o'r pentrefwyr i'r ornest. Bydd yr ieuenctid yn cymryd rhan flaenllaw yn nhrefniadau'r carnifal fel y bwriedir ei gynnal yn ystod yr wythnos Mehefin 26 – Gorffennaf 2ail. Ceir mwy o fanylion eto.

**DIOLCH** – Gan fod Cyngor Arfon wedi cymryd y cae chwarae drosodd erbyn hyn, dymuna swyddogion y pwyllgor cae chwarae gwreiddiol ddiolch i'r aelodau i gyd am eu ffyddlondeb a'u gweithgarwch gydol yr amser. Gwerthfawrogant yn fawr bob cefnogaeth a gawsant gan ardalwyr Cwm-y-glo a'r pentrefi cyfagos, gan ddiolch i eraill a roddodd eu gwasanaeth ym mhob rhyw fodd i wneud y blynyddoedd 1969–1976 yn rhai mor llwyddiannus.

**MERCHED Y WAWR** – Nos Fercher diwethaf dathlodd y gangen leol o Ferched y Wawr a'u cyfeillion Ŵyl Ddewi yn y dull traddodiadol Gymreig. Yn anffortunus ni allodd y llywyddes Mrs. Hannah Jones, Tawel Lan a bod yn bresennol oherwydd anhwyldeb, a cymerwyd y gadair gan yr is-lywyddes Mrs. Eluned Hughes, Hyfrydle. Darparwyd lluniaeth addas o fwydydd Cymreig gan aelodau'r gangen.

Y gŵr gwadd oedd William Jones (Wil Parsal), a daeth ei ddau gyfaill Mr. Dan Williams, Carmel a Mr. George Baum, Y Ffôr gydag ef i'n diddanu. Y gyfeilyddes oedd Mrs. Dilys Jones, Llanhaearn.

Cafwyd noson lawen hwyliog iawn yng nghwmni'r pedwar gyda detholiad o unawdau, deuawdau a chaneuon gwerin, a Mr. Jones yn swyno pawb wrth adrodd ei storiau ffraeth yn ei ddull di-gymar ei hun. Fe gofir yn hir am eu cwmni diddan ac edrychir ymlaen i'w croesawu eto'n fuan.

Diolchwyd iddynt gan Miss Mat Pritchard, Rhosbodrual, ac eiliwyd gan Mrs. Katie Watkins, Dolwen.

**UNDEB Y MAMAU** – Y siaradwyr gwadd i gyfarfod a gynhaliwyd yn ddiweddar yn yr Ysgol Gynradd oedd y Parch. E.T. a Mrs. Roberts, Sant Iago, Bangor. Rhoesant hanes eu pererindod i Wlad Cannan a chanwyd dwy gân addas gan Mrs. Roberts. Y Rheithor a arweiniai'r Gwasanaeth a chyfeiliwyd gan Miss Ceridwen Hughes. Darparwyd y te gan Mrs. Williams y Rheithordy a hi hefyd a lywyddai. Diolchwyd i'r Parch. E.T. a Mrs. Roberts gan y Rheithor ac i Mrs. Williams gan Mrs. Owen, Isfryn. Diweddwyd drwy weddi.

**Y CLEIFION** – Da ydyw deall fod y rhai a fu yn wael yn ddiweddar yn gwella yn foddhaol, ac yn eu mysg Mrs. T. Owen Isfryn, Mrs. M.E. Hughes, Craig y Don, Mr. H. Williams, Nant Forgan, Mr. T. Cawthorpe, Angorfa a Mrs. Rowlands, Yr Allt Goch.

**YMWELIAD AC AVIEMORE** – Deallwn fod nifer o blant ysgol Brynrefail wedi bod ar ymweliad ag Aviemore yn yr Alban i fwynhau campau gaeaf. Deallwn fod rhai o blant y Cwm yn eu plith a hyderwn iddynt fwynhau eu hunain yn fawr iawn.


**CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR**

**Wavell Roberts**
**CIGYDD**
**LONDON HOUSE**
**LLANRUG**
**Ffôn: Caernarfon 3574**
*PEN CIGYDD Y FRO!*
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

# Llannerch Y Llenor



gan SELWYN GRIFFITH

**CROESO i'r Llannerch ar drothwy'r Gwanwyn. Mae cyffro tymor y deffro i'w deimlo o'n cwmpas, er fod yr eira yn mynnu loetran ar y llechweddau.**

Rydw i am aros yn eich cwmni chi y tro hwn eto blant, oherwydd i chi ymateb mor ragorol i'r gystadleuaeth a osodwyd ar eich cyfer yn y rhifyn diwethaf. Chwi gofiwch y tri phennill a luniwyd gan Mr. Gwilym E. Davies, Bethel, gan estyn gwahoddiad i'r plant i'w gwblhau.

Un bore oer o Ionawr
A'r wlad tan eira'n wyn,
Mi welais flodyn bychan,
Gofynnais iddo'n syn

"Paham flodeuyn bychan
Y daethost yma'n awr
I ganol oerni'r gaeaf
Y rhew a'r eira mawr?"

"O", medd y blodyn eira
...

Dyma ymgais Menai Lloyd Hughes, o Lanberis:

"O", medd y blodyn eira
Mae'n amser deffro'n awr
I minnau wneud fy ngorau
I helpu'r Garddwr Mawr".

A dyma ddywed Cemlyn E. Jones, Rhostryfan. Naw oed ydi Cemlyn – da iawn wir.

"O", medd y blodyn eira
"Mi ddeuthum yma'n awr
I weld yr eira'n disgyn
Yn docyn ar y llawr."

Aeth blodyn eira Bethan Jones o Lanberis i deimlo'n wladgarol iawn.

"O", medd y blodyn eira
"Deuthum i Gymru lân
I wlad y bardd a'r delyn
I wrando ar eu cân."

Hoffais bennill Rhiannon Pritchard, Llanberis yn fawr – yn wir fe gyfansoddodd Rhiannon bennill ychwanegol i gloi y gerdd hefyd.

"O", medd y blodyn eira
Gan blygu 'i ben yn dlws
"Myfi yw'r arwydd cyntaf
Fod Gwanwyn wrth y drws."

Cyn hir fe ddaeth y Gwanwyn
A'r tywydd braf yn ôl
"Roedd ŵyn yn cael eu geni
Ar feysydd, bryn a dôl.

Yr un syniad sy' gan Glenda Wyn Owen (9 oed) o 19 Ffordd Cibyn, Caernarfon,

"O," medd y blodyn eira
Gan blygu ei ben yn dlws
I ddangos fod y gwanwyn
Yn nesu at y drws."

Credaf fod y pennill hwn yn ateb y cwestiwn a gafwyd yn yr ail bennill yn esmwythach. "Paham y daethost?" – I ddangos. Ond eto, fedra i ddim gwahaniaethu rhyngddynt – a diolch i Rhiannon am y pennill ychwanegol. Diolch i Gwilym Davies unwaith eto, diolch i bawb am gystadlu a llongyfarchion cynnes i Glenda a Rhiannon – fe gewch eich gwobr cyn hir.

Fe ddiweddwn ni am y tro drwy ( bu bron i mi â dweud 'ganu emyn') gyhoeddi emyn a gefais gan H.R. Jones, Llanberis – emyn plant. Ia, rydych yn berffaith iawn HRJ dyma'r emyn cyntaf i mi ei dderbyn i'r "Llannerch". Diolch i chi am ei anfon ac am eich llythyr diddorol. Rwy'n siwr y cytunwch fod adlais "cant y cant" yn y clo.

GOFAL IESU

Am dy ofal annwyl Iesu
Diolch eto yw fy rhan,
Trwy y nos Ti fu'n gofalu
Pan fo'm llygaid bach yn wan.

Trwy y dydd heb orfod poeni
Yn dy law mi af bob cam,
Teimlo'n ddiogel yn dy gwmni,
Gafael llaw fel llaw fy mam.

Tystio wnaf wrth deithio'r ddaear
Fod yr Iesu'n ffrind i mi,
Ac it ddweud unwaith ar lafar
Dowch blant bychain ataf i.

Canwn, canwn, gyda'n gilydd
Fod yr Iesu'n ffrind i ni,
Haleliwia fo i'r Ceidwad,
Prynodd ni ar Galfari.

Beth am gyfansoddi alaw iddi? Os daw ymateb dewisir yr orau gan arbenigwyr a bydd gwobr. Gyrrwch y cyfansoddiadau i'r golygydd – Gwên-y-Wawr, Llanrug, o dan ffug enw.


Diolch i chi blant,
a hwyl fawr
*Selwyn*


MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI

Ffôn : Portdinorwic 882
Perchennog : J. Evans

GOLYGYDD
Arwel Jones, Gwên-y-Wawr,
Glanffynnon, Llanrug.
*Caernarfon 3719*



TREFNYDD GWERTHIANT
Selwyn Williams, Cartref,
Stryd yr Orsaf, Llanrug.
*Caernarfon 3577.*


# TREFNYDDION YR ECO



IS-OLYGYDD A GOLYGYDD CYFFREDINOL
Twrog Jones, Pros Kairon,
23 Glanffynnon, Llanrug.
*Caernarfon 4051*



GOLYGYDD CHWARAEON
Dafydd Evans, Sycharth,
Bryn Eglwys, Penisarwaun.



TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion,
Glanffynnon, Llanrug.



TREFNYDD PLYGU'R ECO
Tony Elliot, Crud yr Awel,
Bryn Eglwys, Penisarwaun.

Gobeithiwn gynnwys lluniau'r Prif Ohebwyr yn y rhifyn nesaf

# DYMA FO O'R DIWEDD

YDYCH chi'n cofio cystadleuaeth y llinell goll ddiwethaf? Enillodd tri allan o dros gant. Cawsom hyd i ddau – ac erbyn hyn mae'r trydydd wedi dod i'r fei – sef Arthur Afallon. Pwy oedd o? Wel, Mr. Arthur Roberts, 10 Afon Rhos, Llanrug. Mae'n garedig iawn yn dychwelyd y wobr o £1 a'i rhoddi tuag at gostau argraffu *Eco'r Wyddfa.* Llawer o ddiolch iddo – a llongyfarchiadau gwresog.

# Dyddiadur y Mis

**Gwener 1: Llanberis:** Disco dan nawdd y Clwb Ieuenctid yn y Ganolfan. **Waunfawr:** Eisteddfod Plant Capel Bethel.
**Llun 4: Penisarwaun:** Undeb y Mamau **Llanberis:** Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2 o'r gloch. Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John yn y Ganolfan am 7.30
**Mawrth 5: Llanberis:** Undeb y Mamau yn cyfarfod.
**Mercher 6: Llanberis:** Clwb y Mamau yn cyfarfod yn y Ganolfan am 7.30
**Iau 7: Llanrug:** Y Cyngor Eglwysi — Gwasanaeth Cymun dan arweiniad y Rheithor, Y Parch. Gwynfor Williams a gweinidogion yr ardal yn Ysgol Glan Moelyn. **Waunfawr:** Sefydliad y Merched — Sgwrs gan Mrs. Buddug Roberts.
**Gwener 8: Y Groglith: Llanberis:** Y Cyngor Eglwysi — Gwasanaeth Cymun yng Nghapel Gorffwysfa dan arweiniad y Parch. J.H. John Hughes am 10 a.m. **Brynrefail:** Cyfarfod Pregethu Blynyddol am 10, 2 a 6 o'r gloch. Pregethwr gwadd — Y Parch D.R. Lewis, BA., Abergele. **Deiniolen:** Y Cyngor Eglwysi — Gweinyddir Sacrament Swper yr Arglwydd yng Nghapel Ebenezer am 10 a.m.
**Sadwrn 9: Deiniolen:** Cyfarfod Pregethu Cefn y Waun. Gwasanaethir gan y Parch. J. Price Wynne, Bronwydd. **Waunfawr:** Rali Benwythnos Carbennig
**Sul y Pasg 10: Waunfawr:** Cyngerdd Cor Godre'r Garth yng Nghapel Croes y Waun am 8.00 p.m. **Deiniolen:** Cyfarfod Pregethu Cefn y Waun. Gwasanaethir gan y Parch. E. Lloyd Davies, Ebenezer.
**Mawrth 12: Deiniolen:** Clwb yr Henoed yn cyfarfod. **Cwm-y-glo:** Undeb y Mamau yn cyfarfod.
**Mercher 13: Llanrug:** Merched y Wawr yn cyfarfod pryd y ceir arddangosfa o waith llaw Ysgol Llanddinorwig. **Llanberis:** Bingor dan nawdd y Gangen Blaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30 pm
**Iau 14: Waunfawr:** Clwb Gwyrfai yn cyfarfod. **Llanrug:** Clwb Blodau'r Grug yn cyfarfod. **Llanberis:** Cyfarfod Cyhoeddus yng nghwmni Dafydd Wigley AS a Chynghorwyr lleol dan nawdd Cangen Plaid Cymru.
**Gwener 15: Llanberis:** Clwb yr Henoed.
**Llun 18: Deiniolen:** Merched y Wawr yn cyfarfod pryd y gwahoddir yr Henoed i noson yng nghwmni'r delynores, Miss Einir Wyn Owen. **Llanberis:** Clwb Methedig Eryri yn cyfarfod yn y Ganolfan am 2 o'r gloch. Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John yn y Ganolfan am 7.30 pm.
**Mawrth 19: Llanberis:** Cyfarfod Undebol Eglwysi Llanberis yng Nghapel Nant Padarn.
**Mercher 20: Cwm-y-glo:** Merched y Wawr yn cyfarfod yn yr Ysgol Gynradd. **Llanberis:** Clwb y Mamau yn cyfarfod yn y Ganolfan am 7.30 pryd y dangosir ffilmiau gan Miss Clarisse Williams, Summer Hill.
**Gwener 22: Waunfawr:** Cangen Plaid Cymru—Sgwrs gan Mr. Gwyn Mathews **Deiniolen:** Cyfarfod Sefydlu y Parch Geraint Wyn Edwards yn Eglwys Crist Llanddinorwig am 7 o'r gloch. **Llanrug:** Ffair Wanwyn yn yr Ysgol Gynradd dan nawdd Cangen Plaid Cymru.
**Sadwrn 23: Bethel:** Clwb y Rhos yn cael eu cinio Blynyddol ym Mhlas Tan Dinas.
**Llun 25: Llanberis:** Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2 o'r gloch. Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Peldroed yn y Ganolfan am 7.30.
**Mawrth 26: Deiniolen:** Clwb yr Henoed yn cyfarfod. **Waunfawr:** Cwmni Drama'r Aelwyd yn perfformio yn Neuadd yr Eglwys. **Penisarwaun:** Clwb yr Heulwen yn cyfarfod yng nghwmni Mr. Ifor Bowen Griffith.
**Mercher 27: Llanrug:** Undeb y Mamau yn cynnal Noson Goffi. Yr elw er budd Ymchwil i Gancr. **Llanberis:** Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30.
**Iau 28: Llanberis:** Sefydliad y Merched yn dathlu "Jiwbili Aur" gyda chinio ym Mhlas Tan Dinas. **Waunfawr:** Clwb Gwyrfai yn cyfarfod. Merched y Wawr — Sgwrs gan Mrs. Morgan Jones.

## DYDDIADAU I'W COFIO

**Mai 5** — Etholiad Cyngor Sir Gwynedd
**Mai 7**— Plaid Lafur Dyffryn Peris yn cynnal Swper a Dawns yng Ngwesty Frenhinol Fictoria, Llanberis.
**Mai 12** — Ffair Wanwyn Clwb Gwyrfai Waunfawr
**Mai 15**— Cymanfa Ganu ym Methel dan nawdd arweiniad Mr. Emrys Lewis Caernarfon
**Mai 30**— Gwibdaith Flynyddol Clwb Methedig Eryri i Landudno.
**Mehefin 12—19** — Wythnos Garnifal Llanrug
**Mehefin 26 - Gorffennaf 2** — Wythnos Garnifal Cwm-y-glo
**Gorffennaf 10—16** — Wythnos Garnifal Llanberis.

*Manylion i* **Miss Jane Morris, Blodwel Dol Elidir,** *Llanberis, Ffôn:* **Llanberis 220.**

## AR WERTH

**PRAM** Silver Cross. Lliw aur a brown tywyll. Mewn cyflwr da. Yn cynnwys bag a chanopi. £20 o.n.o. *Trigfa, Clwt-y-bont.*




# Croesair Rhif 12



**AR DRAWS:**

1. Brenhinoedd y timau rygbi? (5)
4. Mae'n boeth ar ddiwrnod arbennig yn Nhachwedd (3.5)
9. Loetran (4)
10. Mae gan ambell 'glown' rai mawr (8)
11. Mae gan afon Seiont un o'r rhain (4)
12. 'Roedd un ar fryn (4)
14. Ochr (2)
16. Gwisg uchaf (3)
21. Llestr gwddf hir (5)
23. Yn wir mae'n ffŵl (7)
25. Cerddi (7)
27. Gwisg i'r droed a'r goes (5)
31. Mur i bobl Hufen Iâ! (3)
32. ... a Fe (2)
33. Nid yw'r aderyn hwn yn Eryri (4)
34. Peth cael i'w wneud ag arian (4)
39. Ni ddylid gwneud hyn a dreifio (4.4)
41. Llidiart (4)
43. Mae'r pryf yma'n gwibio o hyd (8)
44. Ffynnu (5)
24. Nid main yw'r gair yma (3)
26. Pan ddaw'r sêr allan (3)
28. Nod (2)
29. Mae 8760 o'r rhain mewn blwyddyn (3)
30. Ffrwythau (7)
34. Basged (5)
35. Gweithred iar (6)
36. Nid yw'n dda (4)
37. Eiddil (4)
38. Y noson hon (4)
40. Gŵr fy mam (3)
42. Ydyw (2)

**I LAWR:**

1. Mae'n sŵn gan rhai pobl (4)
2. Mae rhai'n bertach na'i gilydd (5)
3. Mae hwn ar y byd (5)
4. Gall fod yn gyfarth wrth ysmygu (4)
5. Na (3)
6. Cyw buwch! (2)
7. Bod yn dawel (4)
8. Golygfa o ddarn o dir (6)
13. Am yr ail waith (3)
15. Prydferth (3)
17. Rhan o ateb 3! (3)
18. Toriad yn y pnawn efallai (2)
19. Disgwyl (4)
20. Dan droed - ar ben to (4)
21. Tŷ Mawr (4)
22. "Ni cheir mwy ond .... o wymon" (4)

**Cyfrifir y llythrennau canlynol fel un llythyren:**
CH; DD; FF; NG; LL; PH; RH; TH.

Gwobr o £1 i'r ateb cywir cyntaf a dynnir ar ôl i'r holl gynigion ddod i law.

### ATEBION RHIF 11

**AR DRAWS:** 1. Dŵr. 4. Tas. 8. Te 9. Ara. 10. Bu. 12. Tuchan. 13. Anaf. 14. I'ch. 15. Ochr. 17. Fa. 18. Llanfairfechan. 20. RN. 21. Ru. 22. OBE. 24. Pla. 26. Llu. 28. AS. 29. Aea. 30. yw. 31. Cwt. 32. Ril. 33. Nd. 34. RA. 36. OO. 39. Caru Waunfawr.

**I LAWR:** 2. Wy. 3. Penri. 4. Tân. 5. Arafa. 6. Safant. 7. Ebill. 8. Tuchan. 11. Ucha. 12. Cafrestru. 16. Afradlon. 23. Baw. 24. Pâr. 25. Eli. 26. Llyn. 27. Uwd. 35. Aw. 37. Of. 38. Ir.

**ENILLYDD CROESAIR RHIF 11**
**Mrs. Jane Pritchard, Tudor House, Carmel.**

Daeth y Croesair yma oddi wrth **Aled Roberts, Pwllheli.** Diolch iddo am fentro. Lle mae'r cynigion eraill ysgwn i?

*Anfoner y cynigion fel arfer i:*
**Myrddin Owen, 32, Stryd Fawr, Llanberis**

ENW.......................................................................

CYFEIRIAD...............................................................

...................................................................................

*Dychweler i Myrddin Owen, 32 Stryd Fawr, Llanberis.*

# CHWARAEON

## CLWB PEL-DROED LLANRUG

## — Mewn Undeb mae Nerth

**NID ar y cae am awr a hanner pob pnawn Sadwrn mae mesur cryfder Clwb Pêl-droed, — 'dydi'r gêm ei hun ond uchafbwynt yr wythnos i'r rhai fu'n pwyllgora, paratoi'r cae a dewis y tîm yn ystod yr wythnos. Canlyniad uniongyrchol y rhai sy'n gweithio yn y dirgel yw'r llwyddiant ar y cae, er mai'r rhai sy'n disgleirio ar y bêl sydd yn llygad y cyhoedd ac yn derbyn arwraddoliaeth plant yr ardal.**

**Pwy, felly, yw'r rhain sy'n rhedeg Clwb Pêl-droed Llanrug Unedig, a beth yw hanes y Clwb?**

Ail sefydlwyd Clwb Pêl-droed yn y pentref yn 1968, i chwarae yng Nghefn Llwyd ger Bryn Bras.

Penderfynwyd ail ddefnyddio hen liwiau'r pentref, sef coch a gwyn, a lluniwyd bathodyn i'w roi ar y crysau a'r arwyddair: "Mewn undeb mae nerth" arno.

Bu'r pwyllgor a'r cefnogwyr yn gweithio'n ddiwyd i gasglu arian, i brynu cae yn Eithin Duon. 'Doedd o ddim yn gae delfrydol, yn disgyn 11 troedfedd o gôl i gôl, ond y nhw oedd bia fo — (peth digon anarferol yn hanes clybiau Cynghrair Caernarfon a'r Cylch) — ac yr oedd modd ei wella! Yn 1973 daeth y tractorau mawr a'r jac-codi-baw i lefelu ac ail wynebu'r cae, a'r gost o £1,100 i gyd yn dod o gronfa'r Clwb.

Ymgymerodd Mr. George Lovatt â'r holl waith o drefnu a chynllunio ynglŷn â phrynu a gwella'r cae, — a fo oedd y trysorydd ar y pryd, — ac fel arwydd o deyrnged i'w lafur diflino fe'i gwnaed yn aelod am oes o'r Clwb.

Yn ogystal â hyn, 'roedd llwyddiant yn dilyn y tîm hefyd. Mae'r rhestr anrhydedd yn siarad trosti ei hun.

1971–72:
Pencampwyr y Gynghrair Rownd Derfynol Cwpan Penrhyn.

1972–73
Cwpan Alves. Rownd derfynol Cwpan Penrhyn

1973–74
Cwpan Deanfield

1974–75
Cwpan Deanfield. Rownd derfynol Cwpan Alves.

Dyfarnwyd Tlws Chwarae Teg y Gynghrair iddynt hefyd yn y tymor hwn, gan Gymdeithas y Rheolwyr.

Nid oedd aelodau ieuengaf y Clwb am golli allan chwaith, a daethant â Chwpan Ferodo i'r Clwb am ennill yng Nghynghrair Gwyrfai i rai dan 15eg oed.

Yn ystod y blynyddoedd llwyddiannus hyn hefyd yr adeiladwyd ystafelloedd newid i'r chwaraewyr a chaban i'r cefnogwyr gael paned yn ystod y gêm. Aelodau o Bwyllgor y Merched fydd yn trefnu fod diod o de ar gyfer y ddau dîm bob amser y bydd Llanrug yn chwarae adref.

Llwm iawn fu'r tymor 1975–76 ond eleni mae siawns da am y Cwpan Deanfield unwaith eto.

Mae'r Clwb yn gofalu'n gyfangwbl am y tîm dan 15eg oed — eu dilladu a phrynu peli iddynt yn ogystal â thalu eu costau teithio.

Mr. G. Lloyd Jones ac Alan Vincent Owen sydd yn rhedeg y tîm, ac mae tri o chwaraewyr rheolaidd y Clwb yn gynnyrch uniongyrchol o'r tîm ieuenctid.

Mae'n amlwg fod dyfodol a llwyddiant y Clwb yn dibynnu ar hybu, cefnogi a datblygu'r chwaraewyr ifanc hyn.

Er fod y gwaith o brynu a gwella'r cae wedi ei wneud, nid yw'r pwyllgor wedi rhoi'r gorau i weithio. Casglu arian er mwyn adeiladu cysgodfa i'r cefnogwyr oedd eu tasg ddiweddaraf, ac mae'r sylfaen eisoes wedi ei osod.

DIWEDD Y GÂN...!

Yn naturiol mae angen llawer o arian i gadw dau dîm mewn dillad ac offer, ac i gyfarfod â chostau'r cae a'r adeiladau. Wnaiff yr arian a gesglir wrth y giât yn aml ddim talu costau'r dyfarnwr, ac felly mae'r Clwb yn rhedeg 'draw' wythnosol a misol dan ofal Mr. G. Orritt. Mae croeso i unrhyw un ymaelodi â hi — cysylltwch ag unrhyw aelod o'r pwyllgor — ac mae lle i eraill ar y pwyllgor hefyd. Mae llawer iawn o waith wedi ei wneud, ond mae digon i'w wneud eto os yw Llanrug am barhau yn un o Glybiau mwyaf llwyddiannus y Gynghrair.

Swyddogion presennol y Clwb yw

**Cadeirydd:** R.O. Thomas; **Is-gadeirydd:** D. Whiteside Thomas; **Ysgrifennydd:** Bryn Davies; **Trysorydd:** John Ellis; **Hyrwyddwr:** G. Orrit; **Aelod am Oes:** G. Lovatt; **Llywydd:** E. Fildes; **Rheolwr:** J.A. Jones am ran o'r tymor, ond oherwydd galwadau gwaith bu'n rhaid iddo roi'r gorau i'r swydd. Y pwyllgor sy'n dewis y tîm ar hyn o bryd.

**Capten** D. Horman; **Cymorth Cyntaf:** Wavell Roberts; **Llinellwr:** Arwyn Roberts.

**Aelodau'r Pwyllgor:** Arthur Pritchard; Tom Davies; Gwyn Davies; Pyrs Jones; Tecwyn Roberts; G. Lloyd Jones; Dafydd Owen a Meirion Davies.

Cofiwch, bobl Llanrug, fod croeso i bawb â diddordeb i ymuno â gweithgareddau'r Clwb, — fel y dwed y Sieniaid, "Many hands make light work". Mae'r chwaraewyr yn haeddu cefnogaeth hefyd, a da fyddai gweld llawer mwy ohonoch yn troi tuag Eithin Duon ar bnawn Sadwrn.

Gobeithiaf gynnwys ychydig o hanes y chwaraewyr yn ein rhifyn nesaf. Fy niolch i Dafydd Whiteside Thomas am gasglu a chrynhoi'r ffeithiau ac am ei adroddiadau misol.

# NOFIO

Bu nifer o fechgyn blwyddyn gyntaf Ysgol Brynrefail yn ymgeisio am wobr efydd Cymdeithas Nofio Prydain yn ystod y mis.

Dick Parry fu yn eu hyfforddi, ac i sicrhau'r wobr bu'n rhaid i'r pump fu'n llwyddiannus neidio i'r dŵr tra'n gwisgo crys a throwsus, nofio hanner can llath, sathru dŵr am dri munud ac yna dadwisgo yn y dŵr. Nofio chwarter milltir wedyn, (gan gynnwys 5 llath o dan y dŵr) a deifio i waelod y pwll. I orffen bu'n rhaid dringo o'r pwll yn ddigymorth.

Bu'r dasg olaf yn drech na Neil Williams o Lanrug. Er iddo gwblhau'r holl ymarferiadau, bu'n rhaid atal y wobr rhagddo, gan iddo fethu'n lân â thynnu ei hun allan o'r dŵr.

Y rhai llwyddiannus oedd David Aagaard, Nigel Simmons, John Morgan, Gareth Owen ac Owen Eilir Jones. Ein **llongyfarchiadau calonnog iddynt.**



*David Aagaard, Nigel Simmons, John Morgan, Gareth Owen ac Owen Eilir Jones, y nofwyr efydd.*

# Pêl-droed

**LLANBERIS**

**Ail chwarae Rownd Gyntaf Cwpan y Penrhyn yn erbyn Llanrug fu tasg yr hogia, ar y 5ed o'r mis, a llwyddo'r tro hwn o 3 gôl i 1.**

**Sel Allsupp a Gwilym Williams yn sgorio i Lanberis a Hugh Hughes i Lanrug. Bu Ken Jones, un o gefnwyr Llanrug, yn garedig tuag at Lanbêr, gan daro'r bêl i'w rwyd ei hun.**

**Mawrth 12**
**Llanberis 2, Bethesda 1**

Gêm dda a'r chwarae yn symud yn gyflym o un pen i'r cae at y llall. Sel Allsupp a Gwilym Williams yn sgorio eto.

**Mawrth 19**
**Coleg Normal 7, Llanberis 3**

Gêm i'w hanghofio o safbwynt Llanberis. Methodd eu golgeidwad arferol a chwarae a byr ei daldra oedd y bachgen a gymerodd ei le. Er i Iwan Evans sgorio dwy a Barry Pitts un, 'roedd bron pob cic gan flaenwyr y Normal yn ffeindio'r rhwyd.

'Doedd dim gêm ar y 26 a threfnwyd Taith gerdded gyda'r bwriad o godi arian tuag at gyllid y clwb.

**LLANRUG**

**Mawrth 12**
**Coed Mawr 0 , Llanrug 6**

Llanrug yn crafu am dîm ac yn gwneud yn llawer gwell na'r disgwyl. Jackie Smith (4) a Ken Owen (2) yn sgorio iddynt.

**Mawrth 19**
**Llanrug 4, Harlech 2**

Anafwyd Gareth Thomas yn y gêm yma a gorfu iddo fynd i'r C. & A. am driniaeth lawfeddygol. Er hynny gwelwyd chwarae da a sgoriodd Keith Davies a John Ian Jones ddwy gôl yr un.

**Mawrth 26**
**Llanrug 1, Pwllheli 2**

Chwarae ardderchog gan hynny yn yr hanner cyntaf, a J. I. Jones yn eu rhoi ar y blaen cyn yr egwyl.

'Roedd amheuaeth o gamochri yn perthyn i gôl gyntaf Pwllheli, ond cyflymdra eu blaenwyr a'u galluogodd i fynd ar y blaen. Er i Lanrug ymdrechu'n galed, 'doedd eu hail gôl ddim am ddod, ac mae'r bencampwriaeth yn edrych fel petai ar ei ffordd i Bwllheli y tymor yma.

# Cwpan Pant y Fedwen

**Mae'n rhyfedd fel mae hanes yn ailadrodd ei hun. Yn rhifyn Mehefin '76 o'r *Eco* mae'r pennawd:**

**AELWYD LLANBERIS 6 CWM AFON 0**

**yn rownd derfynol y Cwpan ar gae'r Brifysgol yn Aberystwyth, ac eleni eto, bydd yr un timau yn cystadlu yn yr un gystadleuaeth ar yr un cae.**

**Bu'r llwybr i'r ffeinal yn bur hawdd i Lanbêr eleni. Methodd Treffynnon â chodi tîm i'w gwrthwynebu a dyna fynd i'r rownd gyn-derfynol heb gyffwrdd â phêl. Methodd Llangefni â chodi tîm ar gyfer y rownd honno, a dyma nhw ar eu ffordd eto i Aberystwyth ar yr 2ail o Ebrill.**

**Gobeithir na fydd y gurfa a gawsant y llynedd yn peri i Gwm Afon ddychryn a pheidio â gyrru tîm! Byddai ennill y Cwpan am yr ail flwyddyn yn olynol yn gamp ragorol — gobeithir y cânt y cyfle o wneud hynny ar y cae.**

# MYNYDDA

Bu dau ar hugain o blant Ysgol Brynrefail ynghyd a phedwar o athrawon yn treulio tridiau o wyliau yng Nghanolfan, Rhyd Ddu ar ddiwedd y mis.

Crwydro'r mynyddoedd gan ddysgu defnyddio map a chwmpawd oedd prif bwrpas yr ymarferiad, ac ar ôl diwrnod caled o gerdded, paratoi eu prydau eu hunain, darparu eu gwelyau a glanhau'r ganolfan.

Gwyliau dd'wedais i?

# Rhedeg Traws Gwlad

Bu dau o fechgyn yr ardal yn cynrychioli De Arfon ym Mhencampwriaeth Rasus Traws Gwlad Ysgolion Cymru yn y Drenewydd ar y 5ed o'r mis.

Yn y ras i rai dan 17 oed daeth Wyn Evans o Landdeiniolen yn 24fed a gorffennodd Kelvin Lewis o Ddeiniolen yn 42fed yn y ras i rai dan 15 oed.

# Tarian Eco'r Wyddfa

**Aeth blwyddyn bron heibio er pan enillwyd Tarian Pedwar Bob Ochr Eco'r Wyddfa gan Ysgol Dolbadarn.**

**Bydd y chwarae eleni eto yng nghampfa Ysgol Brynrefail yn ystod mis Mai, a dyma'r adeg i ddechrau ymarfer. Byddaf yn cysylltu â'r prifathrawon yn fuan er mwyn trefnu'r dyddiad.**

**Ewch ati hogia!**